

Datganiad Penderfyniad Adnoddau Dŵr ar gyfer cais am drwydded tynnu dŵr yn Chwarel Gore, Walton, Llanandras, Powys.

Yn y ddogfen hon, ystyr Cyfoeth Naturiol Cymru ('CNC') yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru a sefydlwyd trwy Gymal 3 Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Sylwch, ar 1 Ebrill 2013, y trosglwyddwyd y swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ('CCGC'), Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru (gyda'i gilydd 'y cyrff etifeddol') i CNC.

Wrth benderfynu ar y cais hwn, mae CNC wedi defnyddio ei ddyletswyddau a'i bwerau o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf yr Amgylchedd 1995 ac wedi ystyried yr arweiniad a roddwyd gan y cyrff etifeddol lle bo'n berthnasol.

Mae CNC wedi penderfynu rhoi'r drwydded.

Rhif y cais: PAN-023639

Rhif y drwydded: WA/055/0008/0006

Rhanbarth CNC: Canolbarth

Dyddiad y cais: 25 Hydref 2023

Manylion yr ymgeisydd: Tarmac Trading Limited, Ground Floor, T3 Trinity Park, Bickenhill Lane, Birmingham, B37 7ES.

Crynodeb o'r cynnig: Mae'r ymgeisydd, Tarmac Trading Limited, wedi gwneud cais am drwydded tynnu dŵr lawn newydd i reoleiddio safle tynnu dŵr daear darfodadwy o dwll turio presennol yng Nghyfeirnod Grid Cenedlaethol SO 25669 59311 at ddibenion golchi olwynion ac atal llwch yn Chwarel Gore, Walton, Llanandras, Powys.

Ffynhonnell y cyflenwad: Haenau tanddaearol yn cynnwys Ffuriant Strinds (tywodfaen).

Pwynt tynnu a meintiau dŵr: Yng Nghyfeirnod Grid Cenedlaethol SO 25669 59311. 3.5 litr yr eiliad (l/s), 12.5 metr ciwbig yr awr (m^3 /yr awr), 100 metr ciwbig y dydd (m^3 /y dydd), 19,244 metr ciwbig y flwyddyn (m^3 /y flwyddyn).

Dull tynnu dŵr: Twll turio heb fod yn fwy na 10.93 metr o ddyfnder ac 800 milimetr mewn diamedr gyda phwmp tanddwr.

Diben tynnu dŵr: Golchi olwynion ac atal llwch.

Cyfnod tynnu dŵr: Trwy gydol y flwyddyn.

Elfen a dynnwyd yn ôl yn ystod y penderfyniad: Tyniad dŵr annarfodadwy at ddiben disbyddu Chwarel Gore, o fewn yr ardal a ffurfiwyd gan linellau syth yn rhedeg rhwng y Cyfeirnodau Grid Cenedlaethol canlynol: SO 25829 59297, SO 25244 58700, SO 24986 58718, SO 25454 59341, SO 25672 59400, SO 25261 59083, SO 25111 58927, SO 25019 58674, SO 25111 58664, SO 25579 58910, SO 25610 59036 a SO 25791 59158. Byddai angen disbyddu pan fydd y lefel trwythiad yn cael ei rhyngdorri, yr amcangyfrifir ei bod 234 metr uwchlaw seilnod yr Arolwg Ordans (mAOD). Cynigiwyd dychwelyd dŵr i Nant Riddings yng Nghyfeirnod Grid Cenedlaethol SO 25900 59430 o dan drwydded gollwng dŵr, cyfeirnod AW40019022. Meintiau echdynnu arfaethedig: 175 l/s, 633 m³/yr awr, 5,698 m³/y dydd, 1,310,534 m³/y flwyddyn.

Hanes y cais:

Dyddiad	Digwyddiad
14 Medi 2022	Cyflwynwyd cais am gydsyniad ymchwiliad dŵr daear newydd gan Tarmac Trading Limited, cyfeirnod PAN-019333.
9 Tachwedd 2022	Rhodddwyd cydsyniad ymchwiliad dŵr daear i Tarmac Trading Limited, cyfeirnod WA/055/0008/0004.
25 Hydref 2023	Cyflwynwyd cais annilys am drwydded tynnu dŵr lawn newydd gan Tarmac Trading Limited, cyfeirnod PAN-023639.
28 Tachwedd 2025	Derbyniwyd gwybodaeth bellach; ystyriwyd bod y cais yn ddilys.
30 Tachwedd 2025	Anfonwyd llythyr dilys.
5 Ionawr 2024	Hysbysebwyd y cynnig yn unol â Deddf Adnoddau Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003) a Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Tynnu Dŵr a'i Gronni) 2006. Hysbysebwyd y cynnig mewn papur newydd lleol (y <i>County Times</i> ar 15 Ionawr 2024) ac ar wefan CNC.
17 Mehefin 2024	Llythyr diweddarau cais wedi'i anfon at yr ymgeisydd, yn tynnu sylw at bryderon sylweddol ynghylch yr agwedd ddisbyddu ar y cynnig.
12 Awst 2024	Tynnwyd y cais yn ôl yn rhannol i ddileu'r gweithgaredd disbyddu arfaethedig.
20 Mawrth 2025	Cwblhawyd y dogfennau penderfyniad perthnasol.

Cyfiawnhad o ofynion ac effeithlonrwydd dŵr

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y meintiau tynnu canlynol: 3.5 l/s, 12.5 m³/yr awr, 100 m³/y dydd, 19,244 m³/y flwyddyn at ddibenion golchi olwynion ac atal llwch. Mae'r cyfraddau tynnu dŵr fesul awr a dyddiol yn caniatáu diwrnod gwaith 8 awr, 192 diwrnod y flwyddyn.

Nododd yr ymgeisydd mai golchi olwynion yw prif ddefnydd y dŵr, sef amcangyfrif o 60-70% o'r dŵr a dynnir, gydag atal llwch ar 30-40%. Fodd bynnag, caiff y meintiau tynnu dŵr eu cyfuno o fewn y drwydded (rhwng y ddau ddiben) i ganiatáu hyblygrwydd gweithredol.

Darparodd yr ymgeisydd gofnodion o'r gwaith tynnu dŵr rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Gorffennaf 2022 i gyfiawnhau'r dŵr y gofynnwyd amdano. Mae'r cofnodion yn dangos y cyfraddau tynnu dyddiol cyfartalog drwy gydol pob mis, yn seiliedig ar bwmpio ar ddyddiau'r wythnos yn unig bob mis (ond nid yn cywiro ar gyfer gwyliau banc). Y tynnu dyddiol brig yw 146 m³/y dydd ym mis Mai 2020, gyda'r ail uchaf yn 68 m³/y dydd ym mis Awst 2021. Y tynniadau misol cyfartalog yn ystod y cyfnod 2020-2021 yw 70m³/y dydd.

Mae CNC yn nodi bod y gweithgarwch tynnu dŵr wedi digwydd yn flaenorol heb reoleiddio (h.y. cyn i'r cais hwn gael ei gyflwyno), oherwydd ansicrwydd ynghylch y dull tynnu dŵr. Gweler cyd-destun y safle isod am ragor o wybodaeth. Mae'r wybodaeth hon wedi'i throsglwyddo i dîm cydymffurfedd ardal CNC.

Gan fod cofnodion cyfartalog yr ymgeisydd yn gwyrō'n llai na 30% oddi wrth y symiau y gwnaed cais amdanynt, mae CNC yn ystyried bod y meintiau wedi'u cyfiawnhau'n llawn ac yn rhesymol.

Asesiad adnoddau ac argaeledd dŵr

Mae'r gweithgaredd wedi'i leoli yn nalgylch afon Gwy. Mae'r Strategaeth Trwyddedu Tynnu Dŵr ar gyfer afon Gwy yn datgan mai'r statws asesu adnoddau ar gyfer yr ardal hon yw 'dŵr cyfyngedig ar gael'.

Bydd angen ystyried effaith unrhyw gais am drwydded tynnu dŵr newydd ar Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Gwy. Ni roddir trwyddedau oni bai y gellir dangos na fydd y tynniadau (gyda chyfyngiadau priodol) yn cael "unrhyw effaith niweidiol" ar gyfanrwydd safle ACA Afon Gwy. Nid oes polisi dŵr daear ar wahân. Y ffactor tra phwysig gyda thynnu dŵr daear yw'r cysylltedd hydrologig ag unrhyw gwrs dŵr wyneb. Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu ar sail eu heffaith ar nodweddion dynodedig a gall argaeledd dŵr wyneb fod yn drech na dŵr daear lleol os yw cyswllt hydrologig yn hysbys, wedi'i brofi drwy gynnal pwmpio prawf mewn twll turio, neu, os yw'n anhysbys, o dan yr egwyddor ragofalus. Os canfyddir bod cysylltedd, mae Polisi Trwyddedu Tynnu Dŵr Afon Gwy yn berthnasol. Mae'r polisi hwn yn gosod llif annibynnol ar holl dyniadau dŵr darfodadwy Q74.

Mae CNC yn fodlon nad yw'r cynnig hwn yn debygol o effeithio ar lif dŵr wyneb oherwydd bod y twll turio tynnu dŵr yn cymryd dŵr daear o gorff dŵr clo (ynysig) lleol, wedi'i wahanu oddi wrth y prif gorff dŵr daear. Mae wedi ei leoli o fewn / ar ben bryn o fewn y chwarel, felly uwchben (mewn uchder) y dyfroedd wyneb yn yr ardal leol.

Asesu effaith y cynnig

Cyd-destun y safle

Nododd yr ymgeisydd bod "ffynnon" tynnu dŵr wedi'i gosod yn y chwarel dros ddeng mlynedd yn ôl, a'i bod wedi'i defnyddio ar gyfer atal llwch a golchi olwynion. Ychydig o wybodaeth oedd ar gael am ei hadeiladu. Roedd yr ymgeisydd ar ddeall bod y ffynnon wedi ei gosod yn ei lle drwy gloddio darn o graig, ôl-lenwi gyda graean, a gosod pibell goncrit rychog diamedr mawr er mwyn casglu a phwmpio'r dŵr, gyda'r system yn cael ei hail-lenwi gan ddŵr ffo wyneb ac ymdreiddiad.

Ar sail y ddealltwriaeth hon, roedd yr ymgeisydd o'r farn nad oedd angen trwydded tynnu dŵr. Fodd bynnag, yn ystod ei ymchwiliadau mwy diweddar, daethpwyd i'r casgliad bod y ffynnon yn ddyfnach na'r hyn a adroddwyd yn wreiddiol a'i bod yn debygol o ddod o ddŵr daear, felly mae angen rheoleiddio'r gwaith tynnu dŵr.


Pwmpio prawf ac asesiad o'r effaith hydroddaearegol

Cyhoeddodd CNC gydsyniad ymchwiliad dŵr daear ar 8 Tachwedd 2022, cyfeirnod WA/055/0008/0004, i ganiatáu i'r ymgeisydd gynnal pwmpio prawf o'r twll turio (ffynnon).

Mae canlyniadau'r pwmpio prawf wedi'u hymgorffori mewn asesiad o'r effaith hydroddaearegol (cyfeirnod: 331201262R1Rev1 – Hydref 2023) a gyflwynwyd gyda'r cais hwn am drwydded tynnu dŵr daear. Roedd yn ofynnol i'r ymgeisydd ddatgan yn yr asesiad hwn a dderbyniwyd unrhyw gwynion gan dirfeddianwyr neu ddefnyddwyr dŵr cyfagos yn ystod y pwmpio prawf.

Roedd y cydsyniad ymchwiliad dŵr daear yn gofyn am gyfnod pwmpio prawf am o leiaf 48 awr hyd at 96 awr i ganiatáu i lefelau dŵr daear sefydlogi yn ystod y profion. Cwblhawyd y prawf am 74.4 awr (tri diwrnod a dwy awr a hanner) gyda phrawf adfer dilynol yn cael ei fonitro am 68 awr, pan gofnodwyd adferiad o 58% (i lefelau dŵr sefydlog cyn profi).

Defnyddiwyd pedwar piesomedr (hefyd yn monitro Ffuriant Strinds) o amgylch y chwarel ar gyfer monitro wrth gynnal y pwmpio prawf (*gweler Map 1 isod*). Heb bwmpio, dangosodd y piesomedrau fod lefelau dŵr daear yn uwch yng nghornel de-orllewin y safle ac yn gostwng o ran uchder i'r gogledd-ddwyrain, gan awgrymu cyfeiriad llif tua'r gogledd-ddwyrain ar gyfer y dŵr daear. Arsylwyd y tardellau yn Bilmore Farm, Riddings Brook a Stockwell yn weledol yn ystod cyfnod y pwmpio prawf. Ni welwyd unrhyw lif yn ystod wrth gynnal y gwaith profi. Ni ddefnyddir y tardellau ar gyfer cyflenwadau dŵr yfed. Felly, daethpwyd i'r casgliad nad oedd y dardell mewn perygl o gael ei hamharu oherwydd y gwaith tynnu dŵr.



Map 1

I ddechrau, gostyngodd lefelau dŵr daear yn y twll turio tynnu dŵr yn raddol, ond, ar ôl 900 munud (15 awr), gostyngodd lefelau dŵr daear a dangosodd y graff yn plotio amser yn erbyn tynnu dŵr ostyngiad sylweddol. Mae'r gostyngiad serthach hwn yn y graff yn dangos ffin hydreiddedd isel (neu ddim llif) yn agos at leoliad y twll turio, a fydd yn cyfyngu ar gynnyrch y twll turio dros amser. Os na chaiff y gyfradd tynnu dŵr ei rheoli'n briodol, mae'n bosibl y bydd y twll turio yn sychu a byddai'r adferiad yn araf, fel y dangosir gan y prawf adfer heb gyrraedd adferiad llawn mewn 68 awr.

Dim ond PZ3 a ddangosodd unrhyw effaith amlwg o dynnu dŵr yn y twll turio. Mae hwn wedi'i leoli'n agos at y twll turio tynnu dŵr ac i'r gorllewin. PZ4 yw'r lleoliad monitro caeedig nesaf sy'n dangos ymateb i dynnu dŵr o'r twll turio. Mae hyn yn dangos y bydd côn y gostyngiad o'r twll turio tynnu dŵr yn aros o fewn ffiniau'r chwarel ac mae amhariad ar nodweddion dŵr a defnyddwy'r lleol yn gyfyngedig ac yn annhebygol.

Ni chomisiodd CNC arolwg hydrodaearegol annibynnol, gan nad yw hyn yn rhan o'n proses wrth benderfynu ar gais am drwydded adnoddau dŵr. Cynhaliodd arbenigwyr technegol o fewn CNC asesiad llawn o'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd i gefnogi cais am drwydded. Mae CNC yn ystyried bod y pwmpio prawf yn y twll turio a'r asesiad yn ddigonol i ddangos y bydd effaith y twll turio tynnu dŵr yn aros o fewn ffiniau'r chwarel ac na ragwelir unrhyw effeithiau ar gyflenwadau dŵr preifat yn yr ardal nag ar nodweddion dŵr lleol. Cyfyngir ar hyd y gwaith tynnu dŵr i wyth awr y dydd er mwyn caniatáu i'r twll turio adfer cyn ei ddefnyddio wedyn y diwrnod canlynol. Mae hyn wedi'i gynnwys yn yr amod meintiau uchaf o ddŵr i'w dynnu (6.1) yn y drwydded tynnu dŵr.

Nid yw CNC yn atebol i dalu am unrhyw ran o'r profion (a wnaed o dan y cydsyniad i ymchwilio i ffynhonnell dŵr daear) nac am unrhyw un o'r canlyniadau a allai fod wedi deillio o'r cydsyniad. Deiliad y cydsyniad sy'n gyfrifol am wneud yn iawn am unrhyw golled, difrod neu anaf (boed i bersonau neu eiddo, gan gynnwys adnoddau dŵr yn gyffredinol neu amhariad ar ffynonellau cyflenwi unigol) sy'n deillio o'r cydsyniad.

Effeithiau ar yr amgylchedd dŵr

Mae CNC yn fodlon nad yw'r cynnig hwn yn debygol o effeithio ar lif dŵr wyneb oherwydd bod y twll turio tynnu dŵr yn cymryd dŵr daear o gorff dŵr clo (ynysig) lleol, wedi'i wahanu oddi wrth y prif gorff dŵr daear. Mae wedi ei leoli o fewn / ar ben bryn o fewn y chwarel, felly uwchben (mewn uchder) y dyfroedd wyneb yn yr ardal leol.

Mae CNC o'r farn bod amharu ar nodweddion dŵr lleol (tarddellau, nentydd, afonydd ac ati) yn gyfyngedig ac yn annhebygol.

Effeithiau ar lifogydd

Mae CNC o'r farn na ragwelir unrhyw effeithiau o weithgareddau tynnu dŵr yn y twll turio ar lifogydd lleol oherwydd mae hwn yn waith tynnu dŵr cwbl ddarfodadwy, gyda dŵr yn cael ei ddefnyddio yn y prosesau o atal llwch a golchi olwynion. Bydd unrhyw ddŵr ffo sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn yn cael ei ollwng (drwy system lagŵn gwaddodi bresennol) o fewn paramedrau derbyniol o dan drwydded gollwng dŵr bresennol, cyfeirnod AW4001902 (trwydded gyfunol a gyhoeddwyd ar 7 Gorffennaf 2015). Bydd angen i'r gweithredwr gydymffurfio ag amodau'r drwydded i sicrhau bod y gweithgaredd gollwng yn gweithredu o fewn paramedrau'r

drwydded. Gan fod gweithgareddau tynnu dŵr y twll turio wedi bod ar waith yn y gorffennol, ni ragwelir unrhyw newidiadau.

Mae Nant Riddings yn cael ei dosbarthu'n gwrs dŵr cyffredin. Mae'n bosibl y bydd angen cydsyniad yr awdurdod lleol ar gyfer unrhyw waith sy'n effeithio ar gwrs dŵr cyffredin.

Effaith ar ansawdd dŵr

Ni ragwelir unrhyw effeithiau llygredd ar unrhyw nodweddion dŵr yn yr ardal leol o ganlyniad i weithgareddau tynnu dŵr y twll turio. Bydd unrhyw ddŵr ffo sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn yn cael ei ollwng (drwy system lagŵn gwaddodi bresennol) o fewn paramedrau derbyniol o dan drwydded gollwng dŵr bresennol, cyfeirnod AW4001902 (trwydded gyfunol a gyhoeddwyd ar 7 Gorffennaf 2015). Bydd angen i'r gweithredwr gydymffurfio ag amodau'r drwydded i sicrhau bod y gweithgaredd gollwng yn gweithredu o fewn paramedrau'r drwydded. Gan fod gweithgareddau tynnu dŵr y twll turio wedi bod ar waith yn y gorffennol, ni ragwelir unrhyw newidiadau. Ni fu unrhyw achosion diweddar o ddiffyg cydymffurfio â'r drwydded.

Effeithiau ar ecoleg

Mae arbenigwyr technegol CNC wedi archwilio'r data a ddarparwyd gan yr ymgeisydd ac wedi ystyried effeithiau posibl ar ecoleg. Gan y bydd effaith y twll turio tynnu dŵr yn aros o fewn ffiniau'r chwarel, nid yw CNC yn rhagweld unrhyw effeithiau ar yr ecoleg leol na'r ecoleg ehangach.

Effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol

Yn unol â chytundebau gwaith cyfredol, ymgynghorodd CNC ag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys ar 6 Rhagfyr 2024, ond ni chafwyd ymateb. Gan fod elfen ddisbyddu'r cynnig wedi'i thynnu'n ôl yn ystod y broses benderfynu, ni ragwelir unrhyw effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol gan y gwaith tynnu dŵr yn y twll turio oherwydd bydd yr effaith yn aros o fewn ffiniau'r chwarel.

Effaith ar statws cyrff dŵr o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Mae gwaith sgrinio wedi hepgor y gweithgaredd hwn rhag cael asesiad o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr oherwydd ei fod yn "weithgaredd golau gwyrdd" fel y'i diffinnir yn Nodyn Cyfarwyddyd Gweithredol 72 CNC: 'Canllawiau ar gyfer asesu gweithgareddau o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr'. Mae'r drwydded wedi'i dyroddi yn unol â data'r pwmpio prawf a'r strategaeth trwyddedu tynnu dŵr ar gyfer dalgylch afon Gwy.

Mae CNC yn fodlon na fydd unrhyw ddirywiad yn statws ecolegol y cyrff dŵr a nodwyd o ganlyniad i gydrannau'r gweithgaredd hwn a awdurdodwyd gan y drwydded.

Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith ar statws Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch na statws Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr gan y bydd yr amodau a ganlyn yn cael eu gosod ar y drwydded tynnu dŵr:

- Uchafswm meintiau tynnu
- Mesur a chofnodi meintiau a dynnwyd
- Terfyn amser

Effaith ar ddynodiadau cadwraeth cenedlaethol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn na fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith bosibl ar unrhyw safleoedd a ddynodwyd o dan y Rheoliadau Cynefinoedd neu Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy oherwydd natur a lleoliad y cynnig.

Cynhaliodd arbenigwyr technegol o fewn CNC asesiad llawn o'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd ac maent yn ystyried bod y gwaith pwmpio prawf yn y twll turio a'r asesiad yn ddigonol i ddangos y bydd effaith y twll turio tynnu dŵr yn aros o fewn ffiniau'r chwarel. Felly, nid oes unrhyw botensial i effeithio ar unrhyw safleoedd a ddynodwyd o dan y Rheoliadau Cynefinoedd neu'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Cytunodd Corff Cadwraeth Natur Priodol CNC â'r casgliadau hyn ar 5 Tachwedd 2024.

Effaith ar hawliau gwarchoddedig a defnyddwyr cyfreithlon

Drwy'r broses hysbysebu (gweler 'Sylwadau allanol' isod), mae CNC yn ymwybodol o lawer o gyflenwadau dŵr preifat yn yr ardal leol. Oherwydd y pellter rhwng y twll turio a thynwyr dŵr preifat, daeareg leol yr ardal (mae corff dŵr daear y twll turio wedi'i wahanu oddi wrth y prif gorff dŵr daear) a natur y cynnig (tyniad dŵr hanesyddol), mae CNC yn ystyried bod amhariad ar ddefnyddwyr dŵr lleol (tyllau turio, tardellau, nentydd, afonydd ac ati) yn gyfyngedig ac yn annhebygol.

Ymgynghoriad statudol

Ymgynghorodd CNC â Dŵr Cymru, yr ymgwymerwr dŵr statudol, ar 4 Ionawr 2024. Mynegodd Dŵr Cymru bryderon ynghylch yr effeithiau posibl ar drwydded tynnu dŵr ar gyfer cyflenwad cyhoeddus, oherwydd gallai elfen ddisbyddu'r cais effeithio ar lifoedd yn Nant Gilwern. Gan fod agwedd ddisbyddu'r cynnig wedi'i thynnu'n ôl yn ystod y broses benderfynu ac na ragwelir unrhyw effeithiau ar lif dŵr wyneb o waith tynnu dŵr y twll turio, mae'r pryder hwn wedi'i fodloni. Fodd bynnag, mae'r ymgeisydd wedi cael gwybod am y pryder a bydd angen mynd i'r afael ag ef os yw'n dymuno cyflwyno cais am ddisbyddu yn y dyfodol.

Ymgynghoriad trawsffiniol

Ymgynghorodd CNC ag Asiantaeth yr Amgylchedd ar 9 Ionawr 2024. Codwyd nifer o bryderon (effaith ar safleoedd dynodedig, y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, amhariadau ac ati) mewn llythyr ymateb, yn bennaf ynglŷn ag elfen ddisbyddu'r cais. Ar ôl i elfen ddisbyddu'r cais gael ei thynnu'n ôl, cadarnhaodd Asiantaeth yr Amgylchedd ei bod yn fodlon i arbenigwyr technegol CNC wneud penderfyniad ar y cais.

Sylwadau allanol

Yn unol â Deddf Adnoddau Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003), hysbysebwyd y cais yn *The County Times* ar 5 Ionawr 2024 ac ar wefan CNC. Derbyniwyd sylwadau o fewn y cyfnod a nodwyd yn yr hysbysiad i'r wasg (28 diwrnod), er mwyn i CNC ystyried safbwyntiau cyn gwneud penderfyniad. Estynnwyd y cyfnod hysbysebu ar wefan CNC am bythefnos ychwanegol rhwng 21 Chwefror 2024 a 6 Mawrth 2024 oherwydd diddordeb allanol yn y cais. Felly rhoddwyd cyfanswm o 42 o ddiwrnodau i aelodau'r cyhoedd gyflwyno sylwadau ar y cais. Rhoddir crynodeb o'r pryderon a godwyd isod:

***Nodyn cynghorol:** Tynnwyd elfen ddisbyddu'r cais yn ôl yn ffurfiol gan yr ymgeisydd yn ystod y cyfnod penderfynu. Felly, mae'r ymatebion isod yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn y sylwadau fel eu bod yn ymwneud â gweithgaredd tynnu dŵr darfodadwy y twll turio ar ei ben ei hun.

Adran: Effeithiau llifogydd

<p>Pwnc: Mwy o ollyngiadau dŵr</p>	<p>Pryder a fynegwyd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Gallai gollwng dŵr ychwanegol o'r chwarel achosi mwy o lifogydd i eiddo ger Nant Riddings. Mae mesurau (fel rhwystrau llifogydd ac amddiffynfeydd rhag llifogydd) wedi'u cymryd i atal llifogydd. 2. Bydd y cynnydd mewn gollyngiadau dŵr o'r chwarel yn cael effaith niweidiol ar y nant sy'n arwain at Nant Riddings ac yn y pen draw gallai foddï'r tir y mae eiddo wedi'u lleoli arno. 3. Mae problemau llifogydd yn yr ardal ar hyn o bryd (tiroedd, caeau ac eiddo), ac mae rhai ohonynt wedi cael eu dwyn i sylw Cyngor Sir Powys. Nid yw preswylwyr eisïau i eiddo/cartrefi gael eu peryglu ymhellach gan weithgareddau heb eu monitro gan fusnesau. 4. Cynyddu cyfaint y dŵr yn system afonydd Arwy/Llugwy/Gwy, sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r digwyddiadau glawiad uchel amlach yn y blynyddoedd diwethaf. 5. O ystyried y swm arfaethedig o ddŵr sy'n cael ei dynnu / ei ollwng, perygl llifogydd uwch a'r potensial i effeithio ar fynediad i eiddo. Sut y bydd CNC yn sicrhau bod mynediad yn parhau heb ei effeithio?
<p>Ymateb CNC</p>	<p>Mae CNC o'r farn na ragwelir unrhyw effeithiau o weithgareddau tynnu dŵr yn y twll turio ar lifogydd lleol oherwydd mae hwn yn waith tynnu dŵr cwbl darfodadwy, gyda dŵr yn cael ei ddefnyddio yn y prosesau o atal llwch a golchi olwynion. Bydd unrhyw ddŵr ffo sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn yn cael ei ollwng (drwy system lagŵn gwaddodi bresennol) o fewn paramedrau derbyniol o dan drwydded gollwng dŵr bresennol, cyfeirnod AW4001902 (trwydded gyfunol a gyhoeddwyd ar 7 Gorffennaf 2015). Bydd angen i'r gweithredwr gydymffurfio ag amodau'r drwydded i sicrhau bod y gweithgaredd gollwng yn gweithredu o fewn paramedrau'r drwydded. Gan fod gweithgareddau tynnu dŵr y twll turio wedi bod ar waith yn y gorffennol, ni ragwelir unrhyw newidiadau.</p> <p>Mae Nant Riddings yn cael ei dosbarthu'n gwrs dŵr cyffredin. Mae'n bosibl y bydd angen cydsyniad yr awdurdod lleol ar gyfer unrhyw waith sy'n effeithio ar gwrs dŵr cyffredin.</p>
<p>Pwnc: Monitro gollyngiadau dŵr</p>	<p>Pryder a fynegwyd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Dylai fod yn rhaid i'r ymgeisydd fonitro a thrwsio unrhyw gynnydd mewn pyllau lleol a llifogydd o ganlyniad. 2. Mae'r ardal gyfagos yn destun llifogydd lleol cyfnodol a chronni dŵr o ddŵr ffo. Dylai fod yn ofynnol i'r ymgeisydd fonitro'r ardal leol am unrhyw ganlyniadau anfwriadol o'r broses tynnu dŵr a'r llif dŵr cysylltiedig, megis gwaethygu'r llifogydd hyn. Fel rhan o hyn, dylai fod yn ofynnol iddo gasglu ac ymateb i unrhyw bryderon sydd gan bobl leol. Dylai hyn fod yn amod yn y drwydded.
<p>Ymateb CNC</p>	<p>Mae'r gweithgaredd gollwng dŵr yn cael ei reoleiddio o dan drwydded ollwng, cyfeirnod AW4001902. Bydd angen i'r gweithredwr gydymffurfio ag amodau'r drwydded, gan gynnwys unrhyw ofynion monitro, i sicrhau bod y gweithgaredd gollwng yn gweithredu o fewn paramedrau derbyniol.</p>

Adran: Pwmpio prawf ac asesiad o'r effaith hydrodaearegol

Pwnc: Hysbysiad o bwmpio prawf	Pryder a fynegwyd: <ol style="list-style-type: none"> Ni hysbyswyd trigolion lleol bod y gwaith pwmpio prawf yn cael ei gynnal. Mae Amod 5 o'r cydsyniad ymchwiliad dŵr daear yn nodi bod yn rhaid i ddeiliad y cydsyniad ddatgan os bydd unrhyw gwynion yn dod i law oddi wrth berchnogion tir neu ddefnyddwyr dŵr cyfagos yn ystod y pwmpio prawf. Sut byddai trigolion lleol yn gwybod i gwyno pe na baent yn gwybod am y profion? Sut y gallai tirfeddianwyr fonitro am unrhyw newidiadau os nad oeddent yn ymwybodol o'r profion?
Ymateb CNC	Nid oes unrhyw ofyniad deddfwriaethol i ddeiliaid cydsyniadau hysbysu partïon allanol bod prawf yn cael ei gynnal.

Pwnc: Pwmpio prawf	Pryder a fynegwyd: Cwblhawyd y prawf cydsyniad ymchwiliad dŵr daear ym mis Awst, nad yw'n briodol oherwydd bod y cwrs dŵr lleol ar ei isaf yn ystod misoedd yr haf. Ymateb CNC: Cwblhawyd y prawf yn ystod cyfnod o lifoedd isel mewn afonydd. Mae cynnal y prawf ar yr adeg hon yn helpu i asesu effaith tynnu dŵr yn ystod amodau sych pan fo llai o ddŵr ar gael.
Pwnc: Pwmpio prawf	Pryder a fynegwyd: Mae'r cydsyniad ymchwiliad dŵr daear yn nodi bod yn rhaid cael gwared ar ddŵr wedi'i bwmpio mewn modd sy'n atal cylchrediad yn ôl i'r ddyfrhaen. Sut y gellir atal hyn a sut y byddai'n cael ei waredu? Ymateb CNC: Nododd yr ymgeisydd y cafodd dŵr daear a gafodd ei bwmpio o'r twll turio tynnu dŵr ei ddargyfeirio i danciau storio ar y safle. Roedd tri thanc storio, un â chynhwysedd o 100,000 litr a dau danc â chynhwysedd o 54,000 litr.
Pwnc: Pwmpio prawf	Pryder a fynegwyd: Ymddengys fod y pwmpio prawf a gynhaliwyd ar gyfer y cais yn seiliedig ar allosodiad sylweddol. Mae'r ymgeisydd yn bwriadu tynnu 1,310,534m ³ y flwyddyn, neu 3,590m ³ y dydd, am 20 mlynedd. Fodd bynnag, yn y prawf a gynhaliwyd, tynnwyd 108m ³ o ddŵr y dydd am lai na 3.5 diwrnod. Y pwyntiau cyfeirio a ddefnyddiwyd i asesu effaith y pwmpio hwn oedd tyllau turio neu darddellau a oedd i gyd yn llai na 250m o ffin y safle. O ystyried maint y gwaith tynnu dŵr arfaethedig a nifer y bobl sy'n dibynnu ar y dŵr daear lleol, mae'n ymddangos bod y profion a gynhaliwyd ar raddfa sylweddol lai na'r hyn oedd ei angen. Unwaith eto, sut y gall CNC fod yn siŵr na fydd y tynnu dŵr arfaethedig yn effeithio ar y dŵr sydd ar gael i ddefnyddwyr lleol sydd eisoes yn bodoli? Ymateb CNC: Cododd CNC bryderon ynghylch yr asesiad effaith ar gyfer y gweithgaredd disbyddu, a dynnwyd yn ôl wedyn gan yr ymgeisydd yn ystod y broses benderfynu. O ganlyniad, mae'r cyfraddau tynnu dŵr wedi gostwng yn sylweddol ac felly mae ganddynt radiws effaith llai. Mae'r ymgeisydd wedi cael gwybod am y pryderon hyn a bydd angen mynd i'r afael â nhw gydag asesiad mwy cadarn os yw'n dymuno cyflwyno cais am ddisbyddu yn y dyfodol. Mae gweithgareddau'r twll turio tynnu dŵr wedi bod yn gweithredu yn hanesyddol, felly ni ragwelir unrhyw newidiadau.

<p>Pwnc: Dilysrwydd yr asesiad o'r effaith hydroddaearegol</p>	<p>Pryder a fynegwyd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mae angen cynnal asesiadau effaith manwl ar y dyffryn cyfagos cyn unrhyw waith tynnu pellach. 2. Dylid darparu tystiolaeth wyddonol ychwanegol na fydd yr ymgeisydd yn cymryd dŵr ychwanegol yn effeithio ar y sefyllfa ddŵr leol ymhellach. 3. Nid oes digon o ddealltwriaeth o'r effaith y bydd y lefel hon o dynnu dŵr yn ei chael ar lefel trwythiad y tir o amgylch y chwarel. 4. Mae bygythiad credadwy i'r cyflenwad dŵr preifat lleol yn yr ardal o ran maint ac ansawdd. A yw CNC wedi cynnal gwaith monitro sylfaenol o bob eiddo lleol ar y gofrestr cyflenwadau dŵr preifat? 5. Effaith bosibl y disbyddu ar y tardellau a llifoedd dŵr eraill. Cydnabuwyd yn flaenorol mai effaith debygol y gwaith tynnu dŵr arfaethedig fyddai sychu'r tardellau a llifoedd dŵr eraill o fewn 160 metr i'r ardal tynnu dŵr ac, mewn "senario waethaf", byddai hyn yn ymestyn i 250 metr. Ym mharagraff 5.2.3 o adroddiad Stantec, tudalen 44/163, dywedir "nad yw'r tardellau cyfagos wedi cael eu hystyried yn yr asesiad effaith. Fodd bynnag, efallai y bydd CNC yn ystyried effeithiau llifoedd y tardellau ymhellach yn ystod y cais am drwydded tynnu dŵr." Dylai CNC ystyried y mater hwn yn ofalus a goblygiadau amrywiol y chwarel yn amddifadu tiffeddianwyr o lifoedd dŵr o'r tardellau hyn. 6. Mae gan bob twll turio presennol hawl i o leiaf 20m³ y dydd. Sut y gall CNC fod yn hyderus na fydd yr hawl hon yn cael ei chyfyngu o ystyried y swm mawr o ddŵr sy'n gysylltiedig â'r gwaith tynnu dŵr arfaethedig? Yn enwedig o ystyried y byddai CNC yn agored i gamau cyfreithiol pe bai caniatáu trwydded yn effeithio ar yr hawl hon a'r ansicrwydd cynhenid mewn unrhyw arolwg hydroddaearegol sy'n gysylltiedig â thynnu dŵr ar y raddfa hon a'r hyd hwn. 7. Sut y gall CNC fod yn sicr y bydd digon o ddŵr ar gael ar gyfer gofynion lleol sy'n bodoli eisoes (cyflenwad dŵr cyhoeddus) pan fydd gwaith tynnu dŵr sylweddol o'r fath eisoes yn cael ei wneud. 8. Nid yw'r adroddiad hydroleg wedi ystyried gwybodaeth leol a hanesyddol y rhai sy'n byw yn yr ardal a byddai'r wybodaeth hon yn darparu llawer o wybodaeth ddefnyddiol am gyflenwadau dŵr a llif dŵr yn y dyffryn. 9. Ymddengys nad yw awduron adroddiad Stantec yn ymwybodol o'r tardellau, ffynhonnau a nentydd niferus ar ochr ddeheuol Bryn Pencraig. Dylai CNC arolygu ffynonellau dŵr wyneb o'r fath yn llawn ac asesu'n llawn yr effaith y mae chwarela eisoes wedi'i chael ar y ffynonellau hynny ochr yn ochr â dadansoddi'r effaith y bydd disbyddu yn ei chael yn y dyfodol. 10. Sut mae trigolion i greu'r wybodaeth a gyflwynwyd gan sefydliad sydd ag arbenigwyr â lefelau sgiliau rhesymol? 11. Y prif bryder yw nad yw arolwg hydrolegol y chwarel wedi'i gwblhau'n ddigon manwl ac nid yw trigolion lleol yn credu y bydd effaith tynnu'r swm hwnnw o ddŵr ond yn effeithio ar ardal 250 metr o'r gwaith tynnu dŵr. 12. Rhaid sefydlu proses fonitro lawn a thrylwyr a dylai hon fonitro'r effaith ar y dyffryn yn ei gyfanrwydd nid yn unig y parth 250m a nodwyd yn yr adroddiad a gomisiynwyd gan y chwarel.
<p>Ymateb CNC</p>	<p>Tynnwyd agwedd ddisbyddu'r cynnig yn ôl yn ystod y broses benderfynu, ac o ganlyniad mae'r cyfraddau tynnu dŵr wedi gostwng yn sylweddol ac felly mae ganddynt radiws effaith llai. Gan fod gweithgareddau tynnu dŵr y twll turio wedi bod ar waith yn y gorffennol, ni ragwelir unrhyw newidiadau.</p> <p>Cynhaliodd arbenigwyr technegol o fewn CNC asesiad llawn o'r wybodaeth a ddarparwyd gan ymgeisydd i gefnogi cais am drwydded. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynnal y profion pwmpio a chynhyrchu asesiad o'r effaith ar ddŵr daear yn unol â chanllawiau perthnasol ac arfer gorau, gan gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Safon Brydeinig ISO 14686 (2003), "Dyfarniadau hydrometrig – profion pwmpio ar gyfer ffynhonnau dŵr – ystyriaethau a chanllawiau dylunio, perfformiad a defnydd" • Asiantaeth yr Amgylchedd (2012), "Arfarniad effaith hydroddaearegol ar gyfer tynnu dŵr daear" • Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (2013), "Dull Rheoliadol (WAT-RM-24): Methodoleg Prawf Pwmpio" <p>Mae CNC o'r farn bod y pwmpio prawf yn dangos y bydd effeithiau o'r twll turio tynnu dŵr ar gyfradd tynnu dŵr o 100m³ yn aros o fewn ffiniau'r chwarel a bod amhariad ar nodweddion/defnyddwyr dŵr lleol yn gyfyngedig ac yn annhebygol.</p> <p>Yn unol â chanllawiau CNC, cyflwynwyd arolwg nodweddion dŵr o 500m i gefnogi'r cydsyniad ymchwiliad dŵr daear ar gyfer gweithgaredd y twll turio (cyfeirnod y ddogfen: <i>Chwarel Gore: Cais Cydsyniad Ymchwiliad Dŵr Daear 331201262TN1</i>).</p>

<p>Pwnc: Ceisiadau am arolwg annibynnol</p>	<p>Pryder a fynegwyd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cais am arolwg hydroleg a hydroddaeareg annibynnol i ddilysu'r hyn a gomisiynwyd gan yr ymgeisydd. 2. Dylai CNC ofyn i'r ymgeisydd ddarparu asesiad effaith amgylcheddol manwl i bennu'r effaith ar yr adnoddau dŵr lleol, gan ystyried y ddyfrhaen a Nant Hindwell. 3. Gofyn am astudiaeth hydrolegol a hydroddaearegol gynhwysfawr i asesu effaith bosibl tynnu dŵr ar lefelau dŵr daear lleol, yn enwedig mewn perthynas â thyllau turio. Mae angen i'r astudiaethau hyn ystyried yr effaith ar yr ecosystem amgylchynol. 4. Dylai CNC gomisiynu arolwg hydroleg a hydroddaeareg annibynnol. Mae'r adroddiad presennol yn anghyson ac yn cynnwys gwallau. 5. A yw'r adroddiad sy'n cefnogi'r cais yn ddigon i seilio penderfyniadau arno, oherwydd y bydd yn cael effaith hirdymor ar fywoliaeth a lles trigolion yr ardal? Cwmni sector preifat yw hwn a gomisiynwyd gan gwmni arall yn y sector preifat – ble mae'r annibyniaeth yn hynny? Dylid cynnal asesiad annibynnol o effaith bosibl cynllun o'r fath, gyda dadansoddiad hydrolegol a hydroddaearegol manylach o'r cynnig. 6. Mae'n hanfodol ceisio 'ail farn' i sicrhau bod unrhyw waith tynnu dŵr pellach yn wirioneddol ddiniwed i unrhyw un o'r gymuned gyfagos. Dylai adroddiad o'r fath gael ei wneud gan gwmni annibynnol.
<p>Ymateb CNC</p>	<p>Ni chomisiynodd CNC arolwg hydroddaearegol annibynnol gan nad yw hyn yn rhan o'n proses wrth benderfynu ar gais am drwydded adnoddau dŵr. Cynhaliodd arbenigwyr technegol o fewn CNC asesiad llawn o'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd i gefnogi cais am drwydded. Gallwn hefyd ofyn i ymgeisydd ddarparu rhagor o wybodaeth neu gynnal asesiadau a/neu arolygon ychwanegol sy'n rhesymol ofynnol er mwyn llywio ein penderfyniadau. Nid oedd angen hyn oherwydd tynnwyd agwedd ddisbyddu'r cais yn ôl.</p> <p>Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynnal y profion pwmpio a chynhyrchu asesiad o'r effaith ar ddŵr daear yn unol â chanllawiau perthnasol ac arfer gorau, gan gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Safon Brydeinig ISO 14686 (2003), "Dyfarniadau hydrometrig – profion pwmpio ar gyfer ffynhonnau dŵr – ystyriaethau a chanllawiau dylunio, perfformiad a defnydd" • Asiantaeth yr Amgylchedd (2012), "Arfarniad effaith hydroddaearegol ar gyfer tynnu dŵr daear" • Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (2013), "Dull Rheoliadol (WAT-RM-24): Methodoleg Prawf Pwmpio" <p>Yn unol â chanllawiau CNC, cyflwynwyd arolwg nodweddion dŵr o 500m i gefnogi'r cydsyniad ymchwiliad dŵr daear ar gyfer gweithgaredd y twll turio (cyfeirnod y ddogfen: <i>Chwarel Gore: Cais Cydsyniad Ymchwiliad Dŵr Daear 331201262TN1</i>).</p>

Adran: Effeithiau llygredd

<p>Pwnc: Mwy o ollyngiadau dŵr</p>	<p>Pryder a fynegwyd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Bydd dŵr ychwanegol sy'n cael ei bwmpio i Nant Riddings yn achosi llygredd. 2. Gall y dŵr a ollyngir fod wedi'i halogi â phetrol neu olew neu rai pethau annymunol eraill. Mae trigolion lleol yn gweld llygryddion yn rheolaidd mewn cwrs dŵr bach o'r enw Nant Riddings. 3. Pa effeithiau a gaiff y cynnydd mewn gollyngiadau? 4. Ar hyn o bryd, mae dŵr gwastraff o'r chwarel yn cael ei roi mewn cwrs dŵr o'r enw Nant Riddings, sy'n un o lednentydd Nant Hindwell. Mae'n hysbys iawn yn lleol y bydd y dŵr gwastraff hwn yn arwain yn rheolaidd at ewyn a sglein betrol amryliw. Pan fydd cyfaint y dŵr gwastraff yn cynyddu fel y cynigir o'r broses ddisbyddu, beth fydd effaith y llygryddion canlyniadol ar iechyd yr afon a diogelwch y dŵr daear o ran ei yfed gan bobl neu anifeiliaid? 5. Oherwydd y risg gynyddol o lygredd, dylai fod angen mwy o waith atal a rheoli gollyngiadau. 6. Os defnyddir y dŵr ar gyfer golchi iardiau'r chwarel a'r graean, mae'n mynd i lygru'r dyfrffyrdd a'r tiroedd lle mae'r 'gollyngiad' yn mynd yn ddifrifol. 7. Y risg o halogi dyfrhaenau tanddaearol yn yr ardal. 8. Bydd difrifoldeb posibl digwyddiadau llygredd a gollyngiadau yn cynyddu'n sylweddol. Mae hyn yn cynnwys llifoedd dŵr ychwanegol (boed yn 'fudr', yn llygredig neu'n lân). Fel y cyfryw, dylid rhoi mesurau lliniaru ychwanegol ar waith a'u datgan yn benodol fel amod o'r drwydded. 9. Pa gamau a gymerir i atal dŵr halogedig rhag dychwelyd i'r cyrsiau dŵr presennol? Mae ffrydiau a nentydd eisoes wedi'u halogi gan ddŵr llygredig o'r chwarel. 10. Mae Nant Riddings yn llifo trwy gaeau trigolion lleol ac yn darparu mynediad i sawl adeilad preswyl a busnes. Bu problemau parhaus gyda gollwng o'r chwarel, gwaddod gwyn yn bennaf, ond gall fod llygryddion eraill yn bresennol. A fydd y mater hwn yn cael ei waethygu gan y cynnydd enfawr mewn gollyngiadau? 11. Pryderon am yr afonydd a'r nentydd sy'n rhedeg gerllaw, sydd wedi dioddef halogiad yn y gorffennol diweddar. 12. Bu achosion mynych yn y gorffennol o halogi cyrsiau dŵr lleol a achoswyd gan ollwng dŵr o weithrediadau'r ymgeisydd. 13. Mae gan yr ymgeisydd hanes o effeithio ar gyrsiau dŵr lleol. Hyd yn gymharol ddiweddar, roedd Nant Gilwern / Back Brook yn troi'n wyn neu'n llwyd golau yn rheolaidd o ganlyniad i olchion chwarel (atodiad ffotograff wedi'i gynnwys), yn bennaf o Ddol-y-hir. Effeithiodd y llygredd hwn ar y nant i'w chydlifiad ag afon Arwy, ac afon Arwy am sawl milltir i lawr yr afon, gan ddyddodi haenau o waddod mân ar wely'r afon (atodiad ffotograff wedi'i gynnwys). Yn dilyn cwynion lleol dro ar ôl tro ac adroddiadau digwyddiad i Asiantaeth yr Amgylchedd, mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno mesurau lliniaru yr ymddengys eu bod wedi bod yn weddol lwyddiannus o ran lleihau'r llygredd.
<p>Ymateb CNC</p>	<p>Ni ragwelir unrhyw effeithiau llygredd ar unrhyw nodweddion dŵr yn yr ardal leol o ganlyniad i weithgareddau tynnu dŵr y twll turio. Bydd unrhyw ddŵr ffo sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn yn cael ei ollwng (drwy system lagŵn gwaddodi bresennol) o fewn paramedrau derbynol o dan drwydded gollwng dŵr bresennol, cyfeirnod AW4001902 (trwydded gyfunol a gyhoeddwyd ar 7 Gorffennaf 2015). Bydd angen i'r gweithredwr gydymffurfio ag amodau'r drwydded i sicrhau bod y gweithgaredd gollwng yn gweithredu o fewn paramedrau'r drwydded. Gan fod gweithgareddau tynnu dŵr y twll turio wedi bod ar waith yn y gorffennol, ni ragwelir unrhyw newidiadau ac nid oes gan CNC unrhyw gofnodion o unrhyw achosion diweddar o ddiffyg cydymffurfio â'r drwydded ollwng.</p> <p>Mae'r drwydded tynnu dŵr yn cynnwys amodau i osod y symiau tynnu mwyaf, lleoliad a chyfnodau tynnu dŵr, a'r dull o fesur a chofnodi i gynorthwyo cydymffurfedd.</p> <p>Gall aelodau o'r cyhoedd gysylltu â llinell gymorth CNC ar gyfer digwyddiadau ar 0300 065 3000 os oes pryderon ynghylch diffyg cydymffurfio ag amodau'r drwydded.</p>

Adran: Effeithiau ar ecoleg

Pwnc: Tynnu dŵr	Pryder a fynegwyd: <ol style="list-style-type: none"> 1. Gallai'r gostyngiad mewn dŵr daear effeithio'n niweidiol ar yr ecosystem a bioamrywiaeth yn yr ardal leol. 2. Gall y gweithgaredd tynnu dŵr effeithio ar yr ecoleg yn Nant Summergil / Nant Hindwell. 3. Bydd echdynnu yn achosi i'r lefel trwythiad ostwng, a fydd yn anochel yn effeithio ar ffynonellau dŵr wyneb lleol sy'n hanfodol ar gyfer goroesiad nifer o ecosystemau a mentrau amaethyddol. 4. Pa niwed amgylcheddol fydd tynnu dŵr yn ei wneud i'r ardal, a'r lefel trwythiad? 5. Mae'r chwarel eisoes wedi dinistrio erwau o dir heb unrhyw ymgais i adfywio chwareli sydd wedi'u disbyddu. 6. Nid oes unrhyw ystyriaeth i risgiau posibl tynnu dŵr ar yr ecoleg leol a'r ecoleg ehangach. 7. Mae ecoleg Dyffryn Maesyfed eisoes yn dioddef o effeithiau'r chwarel, ac mae ei maint yn cynyddu'n barhaus. Bellach cynigir tynnu symiau anghynaliadwy o ddŵr gydag effeithiau pellach ar yr amgylchedd a'r gymuned. 8. Bydd cymryd y swm hwnnw o ddŵr yn gwneud cymaint o niwed i'r amgylchedd a'r gymuned yn yr ardal leol. 9. Bydd tynnu dŵr yn peryglu'r lefel trwythiad ac ecoleg sensitif Basn Walton a dyffryn ehangach Maesyfed.
Ymateb CNC	<p>Cais yw hwn am drwydded tynnu dŵr i reoleiddio tynnu dŵr daear presennol. Mae CNC o'r farn na fydd unrhyw newidiadau i'r gweithrediadau presennol nac effeithiau ychwanegol.</p> <p>Mae CNC yn fodlon nad yw'r cynnig hwn yn debygol o effeithio ar nodweddion dŵr lleol oherwydd bod y twll turio tynnu dŵr yn cymryd dŵr daear o gorff dŵr clo (ynysig) lleol, wedi'i wahanu oddi wrth y prif gorff dŵr daear. Mae wedi ei leoli o fewn / ar ben bryn o fewn y chwarel, felly uwchben (mewn uchder) y dyfroedd wyneb yn yr ardal leol. Mae CNC yn ystyried bod yr effeithiau ar nodweddion dŵr lleol (tarddellau, nentydd, afonydd ac ati) yn gyfyngedig ac yn annhebygol.</p>
Pwnc: Llygredd	Pryder a fynegwyd: Bygythiad i fywyd gwylt dyfrol a bywyd gwylt a fflora eraill oherwydd llygredd mewn dŵr wyneb.
Ymateb CNC	Bydd angen i'r gweithredwr gydymffurfio ag amodau trwydded ollwng, cyfeirnod AW4001902, i sicrhau bod y gweithgaredd gollwng yn gweithredu o fewn paramedrau derbyniol.

<p>Pwnc: Effeithiau ar fywyd gwylt (pysgod, adar, dyfrgwn ac ati)</p>	<p>Pryder a fynegwyd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Bydd cael gwared ar ddŵr o Ddyffryn Maesyfed yn cyfrannu ymhellach at dranc yr ecosystem ddŵr ac yn ei dro at fioamrywiaeth Cymru. Mae hyn oherwydd, os caiff un rhan o'r ecosystem ei dinistrio, mae'n cael effaith grychdonol ar weddill y system. Er enghraifft, heb ddŵr, nid oes algâu i fwydo'r pysgod, a heb bysgod nid oes gan y crëyr glas unrhyw fwyd ac mae'n cael ei ddadleoli ac yn cael ei golli i'r ardal hon. 2. Bydd y gwaith tynnu dŵr arfaethedig yn effeithio ar y bywyd gwylt a'r planhigion sy'n byw ac yn tyfu gerllaw. Y llynedd, sychodd Nant Gilwern yn Burlingjobb, gan arwain at golli pysgod ac anifeiliaid ac adar eraill. Os cymerir mwy o ddŵr, bydd hyn yn digwydd mwy. Bydd hyn yn niweidio bywyd gwylt. 3. Mae afon Arwy a'i dalgylch yn cynnal poblogaeth o frithyllod ac eogiaid gwylt ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn brodorol (cimychiaid yr afon) dan bwysau mawr. Mae lefelau dŵr yn ystod misoedd yr haf eisoes yn beryglus o isel a bydd tynnu dŵr pellach o'r system yn ychwanegu'n sylweddol at y straen sydd ar y bywyd gwylt. 4. Nant lle ceir brithyllod a reolir gan Sefydliad Afonydd Gwy ac Wysg yw Nant Hindwell. Mae pryder y bydd gollyngiadau i'r nant yn achosi anghydbwysedd i ansawdd y dŵr, gan felly gael effaith negyddol ar y bywyd pysgod. 5. Mae dyfrgwn yn byw yn y dŵr a'r ardaloedd cyfagos. Rwyf wedi arsylwi ar y dyfrgwn a'r dystiolaeth y maent yn ei gadael ar eu hôl yn Nant Gilwern, a bydd y gwaith tynnu dŵr hwn yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, pe caniateir iddo fynd yn ei flaen. Mae dyfrgwn, yn ôl y gyfraith, yn cael eu gwarchod o dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981, ac ar ben hynny gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Mae hyn yn golygu ei bod yn drosedd peryglu neu niweidio'r dyfrgwn a/neu eu cynefin. 6. Pryderon ynghylch yr effaith ar gynefin afonydd (yn enwedig ar boblogaethau infertebratau o ganlyniad i ronynnau llwch yn gwaethygu) yn y cyffiniau agos yn ogystal â dalgylch ehangach afon Gwy. 7. Pryderon ynghylch pwll ar fferm leol sy'n cael ei fwydo gan darddellau naturiol ac sy'n cynnal llawer iawn o fywyd gwylt.
<p>Ymateb CNC</p>	<p>Mae arbenigwyr technegol CNC wedi archwilio'r data a ddarparwyd gan yr ymgeisydd ac wedi ystyried effeithiau posibl ar ecoleg. Gan y bydd effaith y twll turio tynnu dŵr yn aros o fewn ffiniau'r chwarel, nid yw CNC yn rhagweld unrhyw effeithiau ar yr ecoleg leol na'r ecoleg ehangach.</p> <p>Oherwydd natur a lleoliad y cynnig, nid oes llwybr effaith i unrhyw safleoedd a ddynodwyd o dan y Rheoliadau Cynefinoedd na'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Cytunodd Corff Cadwraeth Natur Priodol CNC â'r casgliadau hyn ar 5 Tachwedd 2024.</p> <p>Ni ragwelir unrhyw effeithiau llygredd ar unrhyw nodweddion dŵr yn yr ardal leol o ganlyniad i weithgareddau tynnu dŵr y twll turio. Bydd unrhyw ddŵr ffo sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn yn cael ei ollwng (drwy system lagŵn gwaddodi bresennol) o fewn paramedrau derbynol o dan drwydded gollwng dŵr bresennol, cyfeirnod AW4001902 (trwydded gyfunol a gyhoeddwyd ar 7 Gorffennaf 2015). Bydd angen i'r gweithredwr gydymffurfio ag amodau'r drwydded i sicrhau bod y gweithgaredd gollwng yn gweithredu o fewn paramedrau'r drwydded. Gan fod gweithgareddau tynnu dŵr y twll turio wedi bod ar waith yn y gorffennol, ni ragwelir unrhyw newidiadau.</p> <p>Mae effaith gronynnau llwch sy'n gwaethygu y tu hwnt i gylch gwaith trwyddedu adnoddau dŵr.</p>

Adran: Ymgynghoriad

<p>Pwnc: Ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y cais am drwydded</p>	<p>Pryder a fynegwyd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Pam nad ymgynghorwyd â thrigolion lleol ar y cais na chael y cyfle i ddysgu'r rhesymeg y tu ôl i'r cynnig na'r cyfle i gwestiynu'r effaith debygol? 2. Pam mae dyddiad cau o 2 Chwefror ar gyfer cyflwyno sylwadau cyhoeddus gan y cyhoedd, pan nad oes llawer o ledaenu gwybodaeth wedi bod? 3. Mae methu â chyfleu unrhyw un o'r cynlluniau i'r gymuned leol neu ymgynghori â nhw yn annerbyniol. 4. Mae llawer o berchnogion tai / tiffeddianwyr yn yr ardal i gael ei disbyddu o hyd nad ydynt yn ymwybodol o'r cais i ddisbyddu ac felly nad ydynt yn ymwybodol o'r effaith bosibl ar eu heiddo a/neu fywoliaeth. Oni ddylai fod ymgynghoriad uniongyrchol ehangach â'r rhanddeiliaid amrywiol sy'n debygol o gael eu heffeithio cyn gwneud unrhyw benderfyniad? 5. Dylai CNC sicrhau bod manylion yr holl ddefnyddwyr dŵr preifat o fewn a thu allan i'r parth 250m yr effeithir arno yn cael eu cyflwyno i CNC cyn dyddiad cau'r ymgynghoriad presennol. 6. Yr angen i'r cais a ddisgwylir yn y dyfodol am drwydded ollwng gael ei gyhoeddi'n llawn a rhoi digon o amser i dderbyn ymatebion. 7. Dylid cynnal ymchwiliadau pellach i effaith y cynigion ar lefelau dŵr daear yn yr ardal gyfagos a dylid cynnal proses ymgynghori gyhoeddus fwy cynhwysfawr cyn cymeradwyo'r cais. 8. Nid yw'r ymgeisydd wedi rhannu ei gynlluniau gyda'r gymuned leol. 9. Dim ond ar hap y des i wybod am y cais. Ni fu unrhyw ymdrech i gysylltu â'r gymuned i drafod y materion a godwyd, yn arbennig gyda'r rhai y gallai hyn effeithio arnynt. A yw hyn yn golygu y bydd y gymuned yn cael ei diystyru a'i gadael i ymdrin â chanlyniadau'r cais?
<p>Ymateb CNC</p>	<p>Yn unol â Deddf Adnoddau Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003), hysbysebwyd y cais yn <i>The County Times</i> ar 5 Ionawr 2024 ac ar wefan CNC. Derbyniwyd sylwadau o fewn y cyfnod a nodwyd yn yr hysbysiad i'r wasg (28 diwrnod), er mwyn i CNC ystyried safbwyntiau cyn gwneud penderfyniad. Estynnwyd y cyfnod hysbysebu ar wefan CNC am bythefnos ychwanegol rhwng 21 Chwefror 2024 a 6 Mawrth 2024 oherwydd diddordeb allanol yn y cais. Felly rhoddwyd cyfanswm o 42 o ddiwrnodau i aelodau'r cyhoedd gyflwyno sylwadau ar y cais.</p> <p>Mae CNC wedi bodloni'r gofynion cyfreithiol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar y cais. Mae pryderon ynghylch cyfleu cynlluniau i drigolion lleol y tu hwnt i ofynion deddfwriaethol CNC. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn gofyn am gysylltu ag aelodau unigol o'r gymuned i godi ymwybyddiaeth o gais. Yn ogystal, mynychodd swyddog amgylchedd CNC gyfarfod rhwng yr ymgeisydd a'r gymuned leol yn swyddfeydd Chwarel Dol-y-hir ar 28 Chwefror 2024 i drafod y cais oedd yn mynd rhagddo gyda'r gymuned leol.</p> <p>Mae gan y safle drwydded gollwng dŵr ar hyn o bryd, cyfeirnod AW4001902 (trwydded gyfunol a ddyroddwyd ar 7 Gorffennaf 2015).</p>

Adran: Amhariadau (tyllau turio, ffynhonnau, tarddellau, nentydd, afonydd ac ati)

<p>Pwnc: Amharu ar ddefnyddwyr dŵr lleol</p>	<p>Pryder a fynegwyd:</p> <ol style="list-style-type: none"> Nid yw llawer o eiddo yng nghyffiniau'r chwarel ar y prif gyflenwad dŵr. Maent yn dibynnu ar eu tyllau turio eu hunain. Gall unrhyw newid yn y lefel trwythiad waelodol effeithio ar eu cyflenwad dŵr. Pryderu ynghylch sut bydd y gwaith tynnu dŵr arfaethedig gan y chwarel yn effeithio ar swm ac ansawdd y dŵr sydd ar gael mewn twll turio ym mhentref Knill. Mae'n ymddangos yn annhebygol na fyddai'n effeithio ar argaeledd dŵr daear yn yr ardal. Sut bydd yr effaith hon yn cael ei hasesu? Os yw dyfnder y gwaith tynnu dŵr yn is na'r lefel trwythiad bresennol, bydd canlyniadau difrifol i'r tir amaethyddol cyfagos. Mae ffermwyr eisoes wedi gweld tarddellau sydd wedi sychu ar ochr ddeheuol Bryn Pencraig oherwydd gwaith tynnu dŵr. Beth yw'r goblygiadau i'r ardal gyfagos ac, yn arbennig, tyllau turio? Dŵr yn dod o dwll turio yn unig (tua 1.5 milltir i'r gogledd-ddwyrain) sy'n gwasanaethu stoc y fferm a phum eiddo. Nid oes mynediad at brif gyflenwad. O ystyried yr hafau sych iawn a gafwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac ystyried y meintiau enfawr o ddŵr y mae'r ymgeisydd yn bwriadu tynnu a storio, mae'n codi pryderon ynghylch sut y bydd hyn yn effeithio ar y cyflenwad dŵr yn y dyfodol. Mae Nant Hindwell yn un o ffiniau eiddo, y mae ei ddŵr yn dod o dwll turio cyfagos. Mae hyn wedi cyflenwi digon o ddŵr yn yr haf a'r gaeaf am y 50 mlynedd diwethaf. Os bydd y gwaith tynnu dŵr yn mynd yn ei flaen, gofynnir am gyngor cyfreithiol os bydd y twll turio yn methu. Mae'r ffigur tynnu dŵr yn un enfawr, sy'n peri pryder i gyflenwadau dŵr preifat, sydd wedi dioddef yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Pryderon ynghylch effeithiau ar gyflenwad ffynnon yn Hindwell yng nghanol Dyffryn Maesyfed. Bydd hyn yn cael effaith ar y gymuned leol o ran ei dibyniaeth ei hun ar dyllau turio ar gyfer ei chyflenwad dŵr, ar ffermydd ac at ddefnydd domestig. Nid oes gan y rhan fwyaf o'r ardal ddŵr o'r prif gyflenwad ac felly mae trigolion yn dibynnu ar y system dŵr tanddaearol. Ar hyn o bryd, mae'n sefydlog ond erbyn misoedd yr haf bydd dŵr yn brin. Yn flaenorol, roedd angen drymiau o ddŵr yn sgil cyflenwadau'n sychu. Os cymerir mwy o ddŵr, bydd hyn yn dod yn broblem trwy gydol y flwyddyn. Gostwng y lefel trwythiad i'r pwynt lle mae'r gwahanol dyllau turio lleol ar gyfer cyflenwadau dŵr domestig a busnes yn cael eu peryglu o ran ansawdd ac argaeledd dŵr. Pryderon ynglŷn ag effeithiau ar eiddo ger ffin ddeheuol a gorllewinol Chwarel Gore. Dros y blynyddoedd, bu cyflenwad o ddŵr tarddell i'r caeau cysylltiedig, nad yw erioed wedi peidio â llifo ers dros 250 o flynyddoedd, hyd yn oed yn y blynyddoedd lle bu'r sychder mwyaf. Mae canfyddiadau'r asesiad effaith yn dangos yn glir bod tarddell Gore Barn o fewn 160m, felly o fewn yr ardal lle mae'r ymgeisydd yn dweud y bydd lefelau dŵr yn cael eu heffeithio, ac felly bydd yn cael effaith negyddol fawr ar y tir trwy beidio â chael dŵr ar gyfer da byw a dibrisio fferm hynod gynhyrchiol, gydag effeithiau dinistriol ar fioamrywiaeth a chynefin y tir. Mae'r drwydded arfaethedig a geisir gan yr ymgeisydd yn codi nifer o bryderon sylweddol i drigolion Knill. Mae tyllau turio lluosog yn Knill sy'n bwydo'r amrywiol fentrau ffermio ac eiddo preswyl. Dylai CNC ystyried yn ofalus faint o ddŵr daear sydd ar gael yn lleol i ddefnyddwyr dŵr presennol yn ogystal ag asesu'r effeithiau ar ddalgylch yr afon. A fydd Nant Gilwern yn sychu? Mae'r nant eisoes dan fgythyriad oherwydd gwaith tynnu dŵr ar raddfa fawr a'r gollyngiad y bu'n rhaid iddi ei ddioddef o Chwarel Dol-y-hir tua milltir i fyny'r nant. Pryderon ynghylch amhariad ar gyflenwadau ffynhonnell ddŵr lluosog yn Womaston Isaf (twll turio, ffynnon a tharddell).
<p>Ymateb CNC</p>	<p>Tynnwyd agwedd ddisbyddu'r cynnig yn ôl yn ystod y broses benderfynu, mae'r cyfraddau tynnu dŵr wedi gostwng yn sylweddol, ac felly mae ganddynt radiws effaith llai. Cais yw hwn am drwydded tynnu dŵr i reoleiddio tynnu dŵr daear presennol. Mae CNC o'r farn na fydd unrhyw newidiadau i'r gweithrediadau presennol nac effeithiau ychwanegol.</p> <p>Cynhaliodd arbenigwyr technegol o fewn CNC asesiad llawn o'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd i gefnogi cais am drwydded. Mae CNC yn ystyried bod y pwmpio prawf yn y twll turio a'r asesiad yn ddigonol i ddangos y bydd effaith y twll turio tynnu dŵr yn aros o fewn ffiniau'r chwarel ac na ragwelir unrhyw effeithiau ar gyflenwadau dŵr preifat yn yr ardal nag ar nodweddion dŵr lleol. Cyfyngir ar hyd y gwaith tynnu dŵr i wyth awr y dydd er mwyn caniatáu i'r twll turio adfer cyn ei ddefnyddio wedyn y diwrnod canlynol. Mae hyn wedi'i gynnwys yn yr amod meintiau uchaf o ddŵr i'w dynnu (6.1) ar y drwydded tynnu dŵr.</p> <p>Mae CNC yn fodlon nad yw'r cynnig hwn yn debygol o effeithio ar ddefnyddwyr dŵr wyneb lleol oherwydd bod y twll turio tynnu dŵr yn cymryd dŵr daear o gorff dŵr clo (ynysig) lleol, wedi'i wahanu oddi wrth y prif gorff dŵr daear. Mae wedi ei leoli o fewn / ar ben bryn o fewn y chwarel, felly uwchben (mewn uchder) y dyfroedd wyneb yn yr ardal leol. Felly, ni fydd angen unrhyw lif annibynnol ar y drwydded tynnu dŵr.</p>

<p>Pwnc: Amharu ar nodweddion dŵr lleol</p>	<p>Pryder a fynegwyd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Gall y pwmpio effeithio ar yr amgylchedd lleol, yn enwedig wrth i amodau sychder waethygu. 2. Beth yw'r goblygiadau i'r ardal gyfagos a'r cyrsiau dŵr eraill gerllaw a'r lefel trwythiad? 3. Bydd y lefel trwythiad yn Nyffryn Maesyfed yn cael ei heffeithio'n ddifrifol. 4. Mae'r cais hwn wedi pryderu trigolion lleol ynghylch yr effeithiau ar y lefel trwythiad gan fod y lefelau pwmpio y gwnaed cais amdanynt yn anferth. 5. Mae'r nentydd a arferai ddal dŵr bob haf, e.e. Nant Summergil, wedi dechrau sychu. Pryderon ynghylch argaeledd dŵr os caniateir i'r ymgeisydd dynnu cymaint o ddŵr. 6. Pryderon ynghylch argaeledd dŵr oherwydd effeithiau ychwanegol ochr yn ochr â gwaith tynnu dŵr presennol, megis chwarel, dofednod/llaeth, a chyflenwad dŵr cyhoeddus. 7. Mae Nant Summergil a'i llednentydd yn sychu'n gynharach yn y tymor ac yn rhedeg yn fwy afreolaidd nag o'r blaen. Bydd gwaith tynnu dŵr pellach yn gwaethygu hyn. 8. Bydd y gweithgaredd yn effeithio'n ddramatig ar lefelau dŵr Dyffryn Maesyfed ac felly'n effeithio ar unrhyw beth sy'n dibynnu ar ffynonellau dŵr naturiol. 9. Mae'n bosibl y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar argaeledd dŵr daear nid yn unig yn yr ardaloedd yn union gerllaw'r chwarel ond hefyd ffermydd ac aneddiadau Nash a Knill yn Nyffryn Riddings, a hyd yn oed tref Llanandras. 10. Eisoes mae lefelau dŵr yn gostwng mewn nant leol ym Maesyfed ac mae prinder dŵr mewn tyllau turio a tharddellau ffermwyr lleol. Felly, mae'n rhesymegol y byddai unrhyw waith tynnu dŵr pellach yn peryglu lefelau dŵr naturiol y gymuned leol.
<p>Ymateb CNC</p>	<p>Tynnwyd agwedd ddisbyddu'r cynnig yn ôl yn ystod y broses benderfynu, mae'r cyfraddau tynnu dŵr wedi gostwng yn sylweddol, ac felly mae ganddynt radiws effaith llai. Cais yw hwn am drwydded tynnu dŵr i reoleiddio tynnu dŵr daear presennol. Mae CNC o'r farn na fydd unrhyw newidiadau i'r gweithrediadau presennol nac effeithiau ychwanegol.</p> <p>Bydd angen ystyried effaith unrhyw gais am drwydded tynnu dŵr newydd ar Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Gwy. Ni roddir trwyddedau oni bai y gellir dangos na fydd y tyniadau (gyda chyfyngiadau priodol) yn cael "unrhyw effaith niweidiol" ar gyfanrwydd safle ACA Afon Gwy. Nid oes polisi dŵr daear ar wahân. Y ffactor tra phwysig gyda thynnu dŵr daear yw'r cysylltedd hydrolog ag unrhyw gwrs dŵr wyneb. Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu ar sail eu heffaith ar nodweddion dynodedig a gall argaeledd dŵr wyneb fod yn drech na dŵr daear lleol os yw cyswllt hydrolog yn hysbys, wedi'i brofi drwy gynnal pwmpio prawf mewn twll turio, neu, os yw'n anhysbys, o dan yr egwyddor ragofalus. Os canfyddir bod cysylltedd, mae Polisi Trwyddedu Tynnu Dŵr Afon Gwy yn berthnasol. Mae'r polisi hwn yn gosod llif annibynnol ar holl waith tynnu dŵr darfodadwy Q74.</p> <p>Cynhaliodd arbenigwyr technegol o fewn CNC asesiad llawn o'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd i gefnogi cais am drwydded. Mae CNC yn ystyried bod y pwmpio prawf yn y twll turio a'r asesiad yn ddigonol i ddangos y bydd effaith y twll turio tynnu dŵr yn aros o fewn ffiniau'r chwarel ac na ragwelir unrhyw effeithiau ar gyflenwadau dŵr preifat yn yr ardal nag ar nodweddion dŵr lleol. Cyfyngir ar hyd y gwaith tynnu dŵr i wyth awr y dydd er mwyn caniatáu i'r twll turio adfer cyn ei ddefnyddio wedyn y diwrnod canlynol. Mae hyn wedi'i gynnwys yn yr amod meintiau uchaf o ddŵr i'w dynnu (6.1) ar y drwydded tynnu dŵr.</p> <p>Mae CNC yn fodlon nad yw'r cynnig hwn yn debygol o effeithio ar ddefnyddwyr dŵr wyneb lleol oherwydd bod y twll turio tynnu dŵr yn cymryd dŵr daear o gorff dŵr clo (ynysig) lleol, wedi'i wahanu oddi wrth y prif gorff dŵr daear. Mae wedi ei leoli o fewn / ar ben bryn o fewn y chwarel, felly uwchben (mewn uchder) y dyfroedd wyneb yn yr ardal leol. Felly, ni fydd angen unrhyw lif annibynnol ar y drwydded tynnu dŵr.</p>

Adran: Gwrthwynebiadau i'r cynnig

<p>Pwnc: Gwrthwynebiadau i'r cais tynnu dŵr</p>	<p>Pryder a fynegwyd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Gwrthwynebiad i'r ymgeisydd dynnu mwy o ddŵr o'r chwarel. 2. Gwrthwynebiad i gais tynnu dŵr daear. 3. Gwrthwynebiad i'r cynnig i dynnu mwy o ddŵr o Ddyffryn Maesyfed. 4. Gwrthwynebiad fel tiffeddiannwr a phreswlydd lleol yn Nyffryn Maesyfed. 5. Gwrthwynebiad fel preswlydd lleol. 6. Gwrthwynebiad i'r ymgeisydd yn tynnu 1.5 miliwn tunnell arall o ddŵr y flwyddyn. Fel defnyddiwr cyflenwad dŵr preifat, pryderon y bydd yn effeithio ar y cyflenwad dŵr preifat.
<p>Ymateb CNC</p>	<p>Mae CNC yn fodlon bod y penderfyniad hwn yn gydnaws â'n diben cyffredinol o geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru a chymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.</p>
<p>Pwnc: Gwrthwynebiadau i'r cais cynllunio</p>	<p>Pryder a fynegwyd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Gwrthwynebiad i'r cais cynllunio i dynnu 1.5 miliwn tunnell arall o ddŵr o Ddyffryn Maesyfed. 2. Gwrthwynebiad i'r cais cynllunio. 3. Gwrthwynebiad i gais cynllunio'r ymgeisydd i dynnu 1.5 miliwn tunnell o ddŵr o Faesyfed. 4. Gwrthwynebiad i gais cynllunio'r ymgeisydd i dynnu rhagor o ddŵr o chwarel Maesyfed.
<p>Ymateb CNC</p>	<p>Nid yw'r sylwadau hyn yn berthnasol gan eu bod yn ymwneud â'r broses gynllunio. Mae'r caniatâd cynllunio presennol yn caniatáu gwaith chwarel i 164 metr uwchlaw seilnod yr Arolwg Ordnans (mAOD).</p>

Adran: Effeithiau archaeolegol

<p>Pwnc: Effeithiau archaeolegol (Tynnu Dŵr)</p>	<p>Pryder a fynegwyd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mae Dyffryn Maesyfed yn dirwedd archaeolegol o bwysigrwydd rhyngwladol gydag adnodd archaeolegol. Mae yna hefyd grynodiad mawr o henebion rhestredig yn Nyffryn Maesyfed. Mae angen ystyried yn llawn effaith bosibl disbyddu'r chwarel ar adnodd archaeolegol Dyffryn Maesyfed. Yn benodol, y risg bosibl y gallai ei hachosi i gadw gweddillion palaeo-amgylcheddol yn y fan a'r lle a gweddillion organig posibl eraill. Fel llinell sylfaen, byddai angen i'r cais ystyried yr adnodd archaeolegol yn yr ardal ar ffurf asesiad pen desg. Ymhellach, dylai gwaith monitro safleoedd a allai fod mewn perygl o ddisbyddu gael ei wneud gan gontractwr â chymwysterau addas. Hefyd, dylid ymgynghori â Cadw ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd–Powys. Mae'r adnodd archaeolegol hwn yn bwysig i'r gymuned leol. 2. Mae yna nifer o henebion rhestredig y mae'n rhaid iddynt gael sylw, ac nad ydynt hyd yn hyn, fel rhan o'r cynllun, fel sy'n ofynnol gan Bolisi Cynllunio Cymru, o dan 'Asedau Hanesyddol'. Ymhellach fyth, rhaid ystyried yr effaith ar y lefel trwythiad a lefel y dŵr ym Mro Maesyfed o ystyried y potensial ar gyfer amodau dwrlawn a all gadw deunyddiau archaeolegol organig amhrisiadwy. 3. Ychydig iawn o gyfeiriadau a wna adroddiad Stantec at arwyddocâd rhyngwladol Basn Walton (i'r gogledd o Fryn Pencraig), a fu'n safle gweithgarwch dynol o 10,000 CC (helwyr-gasglwyr crwydrol) i fod yn safle rhai o ffermwyr sefydlog cynharaf y wlad hon tua 6,000 CC. Mae tystiolaeth yn y basn/dyffryn o gaeau Neolithig enfawr a adeiladwyd tua 4,000 CC. Mae gan Fasn/Dyffryn Maesyfed rai nodweddion hydrolegol diddorol: o Nant Summergil, sy'n sychu yn yr haf, a dŵr daear sy'n cronni mewn cyfres o darddellau ar ochr bellaf Pwll Hindwell. Ffynhonnell Nant Hindwell yw Pwll Hindwell ac mae'n parhau i lifo trwy gydol y flwyddyn (cyfeirnod: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys – Basn Walton). Awgrymaf fod chwarela i ddyfnder islaw lefel maes parcio'r hen Crown Inn yn Walton (ar ochr ddwyreiniol y dyffryn) yn debygol o herio lefelau dŵr ym Masn Walton / Dyffryn Maesyfed – ardal annwyl iawn – a bydd hyn yn amlwg iawn i'r holl arsylwyr. 4. Mae Nant Hindwell a'r pwll yn safleoedd hanesyddol pwysig iawn a dylid eu gadael heb eu haflynyddu am byth.
<p>Ymateb CNC</p>	<p>Yn unol â chytundebau gwaith cyfredol, ymgynghorodd CNC ag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys ar 6 Rhagfyr 2024, ond ni chafwyd ymateb. Gan fod elfen ddisbyddu'r cynnig wedi'i thynnu'n ôl yn ystod y broses benderfynu, ni ragwelir unrhyw effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol gan y gwaith tynnu dŵr yn y twll turio oherwydd bydd yr effaith yn aros o fewn ffiniau'r chwarel.</p>

Adran: Effeithiau ar fusnesau

<p>Pwnc: Effeithiau ar fusnesau</p>	<p>Pryder a fynegwyd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mae'n bosibl iawn y bydd y gwaith tynnu dŵr arfaethedig yn effeithio ar fusnes ffermio lleol o ganlyniad i lefelau dŵr daear is o bosibl mewn cyfnodau sych yn yr haf, gan leihau twf glaswellt yn yr haf a chynnyrch cnydau â. 2. Byddai cynigion yr ymgeisydd yn peryglu fy musnes ac ecoleg Dyffryn Maesyfed. 3. Mae'r nant sy'n rhedeg trwy dir preswlydd yn sych am ran helaeth o'r flwyddyn, a bydd y cynlluniau hyn yn gwaethgu'r sefyllfa hon ac yn cael effaith negyddol uniongyrchol ar ei fusnes. 4. Dŵr o Nant Riddings i ffin dde-orllewinol y chwarel i ddyfrio da byw. Mae'r nant ar ochr y chwarel yn cael ei chyflenwi gan ddŵr o ddwy darddell yn agos at Chwarel Gore. Pryderon y bydd tynnu dŵr yn effeithio ar y cyflenwad dŵr i'r tarddellau hyn a hefyd Nant Summergeil (sydd eisoes yn amlwg â llai o ddŵr yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd lefelau uchel o dynnu dŵr eisoes). 5. Mae'r lefel trwythiad eisoes wedi disgyn mewn ardal lle mae amaethyddiaeth yn rhan hanfodol o'r economi, ac mewn cyfnod lle mae ecosystemau dan fygythiad digynsail. 6. Busnes lleol ym mhentref Walton ar gyflenwad dŵr preifat yn pryderu am y cais i dynnu miliwn tunnell o ddŵr y flwyddyn o Ddyffryn Maesyfed. 7. Lleihau lefelau dŵr ac felly ffrwythlondeb priddoedd cyfoethog Basn Walton, o bosibl hyd yn oed yn arwain at erydu haenau uchaf y pridd gan y gwynt a pheryglu'r mentrau amaethyddol niferus sy'n gweithredu yn yr ardal. 8. Pe bai dŵr yn cael ei dynnu o'r dyffryn, byddai tarfu mawr ar y cymunedau ffermio oherwydd mae'r dŵr hwnnw'n cyflenwi dŵr i'r rhan fwyaf o ffermydd yr ardal ar gyfer eu hanifeiliaid a'u cnydau, sy'n golygu y byddai llawer o fflora a ffawna yn darfod a byddai'n rhaid rhoi'r gorau i lawer o ffermydd. 9. Mae'r dŵr a gymerir yn mynd i effeithio'n anffafriol ar y lefel trwythiad ac o ganlyniad ar amaethyddiaeth yn y dyffryn. Mae ffermwyr eisoes yn gorfod delio â chyfnodau o sychder sy'n rhoi straen sylweddol ar y cnydau, a bydd unrhyw leihad pellach 'o waith dyn' yn y dŵr sydd ar gael ar gyfer amaethyddiaeth i'w deimlo nid yn unig yn y dyffryn ond hefyd drwy'r gadwyn fwyd. Mae Dyffryn Maesyfed yn dir fferm ffrwythlon, da iawn. Mae llawer yn dibynnu ar gynnal a chadw'r lefel trwythiad. 10. Mae'r dyffryn yn dir pori sy'n cynnal nifer o ffermydd. Mae tynnu swm mor sylweddol o ddŵr yn codi pryderon ynghylch yr effaith bosibl ar allu'r dyffryn i gynnal da byw. Pa warantau y gellir eu darparu na fydd y gwaith tynnu dŵr yn effeithio'n anffafriol ar hyfywedd amaethyddol y dyffryn? 11. Pryderon ynghylch effeithiau ar dyllau turio yn y tri busnes fferm yn Knill. 12. Nid oes ystyriaeth ddigonol wedi ei rhoi i effaith y cais ar bobl a busnesau lleol. 13. Gallai tynnu'r cyfaint dŵr arfaethedig effeithio ar hyfywedd llawer o fusnesau sy'n bodoli eisoes. 14. Mae ffermwyr angen y nentydd sy'n llifo o fewn Dyffryn Maesyfed er mwyn gallu darparu dŵr i'w da byw. Mewn rhai caeau, dyma eu hunig ffynhonnell o ddŵr, ac mae angen i dda byw gael mynediad parhaus i gyflenwad dŵr addas i oroesi. Mae'r nentydd yn sychu yn achosi iddynt gael llif llai a swm llai o ddŵr yn dod i mewn i rai cartrefi preswyl gan nad oes digon o ddŵr i lenwi eu tyllau turio cyn iddo gael ei hidlo i mewn. Nid oes gan rai ffynonellau eraill o ddŵr gan nad ydynt wedi'u cysylltu â'r prif gyflenwad dŵr o amgylch Cymru.
<p>Ymateb CNC</p>	<p>Wrth gyflawni ei swyddogaethau, rhaid i CNC ystyried iechyd a llesiant cymdeithasol unigolion a chymunedau yn ogystal â llesiant economaidd unigolion, busnesau a chymunedau.</p> <p>Cynhaliodd arbenigwyr technegol o fewn CNC asesiad llawn o'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd i gefnogi cais am drwydded. Mae CNC o'r farn bod y pwmpio prawf yn y twll turio a'r asesiad yn ddigon i ddangos y bydd effaith y twll turio tynnu dŵr yn aros o fewn ffiniau'r chwarel ac nad oes unrhyw effeithiau i'w rhagweld ar gyflenwadau dŵr preifat yn yr ardal na nodweddion dŵr lleol sy'n cefnogi busnesau lleol.</p> <p>Mae CNC yn fodlon bod y penderfyniad hwn yn gydnaws â'n diben cyffredinol o geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru a chymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.</p>

Pwnc: Effeithiau ychwanegol	Pryder a fynegwyd: Ymddengys nad yw'r ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â'r cais yn rhoi fawr o ystyriaeth i effaith y cynllun disbyddu ar fywoliaeth economaidd, eiddo ac amgylchedd unigolion a busnesau'r ardal. Mae'n anodd nodi unrhyw beth sy'n mynd i effeithio ar y rhanddeiliaid hyn mewn modd cadarnhaol. Bydd y chwarel yn gosod costau allanol mawr ar yr ardal, ar ben y sŵn, llwch, dirywiad ansawdd dŵr, llygredd golau, diraddio arwyneb ffyrdd a'r ffrwydro y mae'n gyfrifol amdanynt ar hyn o bryd.
Ymateb CNC	Bydd angen i'r gweithredwr gydymffurfio ag amodau trwydded ollwng, cyfeirnod AW4001902, i sicrhau bod y gweithgaredd gollwng yn gweithredu o fewn paramedrau derbyniol. Mae effeithiau sŵn, llygredd golau, diraddio arwynebau ffyrdd ac effaith sŵn ffrwydro y tu allan i gylch gwaith Deddf Adnoddau Dŵr 1991, a gellir eu hystyried dan ganiatadau eraill, e.e. caniatâd cynllunio.
Pwnc: Twristiaeth	Pryder a fynegwyd: Ar hyn o bryd, mae gan Ddyffryn Maesyfed lif da o dwristiaid, a phobl sy'n dod i weld y golygfeydd, yn bennaf oherwydd y cyrff helaeth o ddŵr y gellir eu gweld. Mae hyn yn helpu busnesau bach i barhau, sy'n arbennig o bwysig ar ôl ergyd aruthrol Covid-19. Os bydd dŵr yn cael ei dynnu, bydd hyn yn ei dro yn lleihau nifer yr atyniadau twristiaeth dŵr, megis Water-break-its-neck a Chwm Elan, gan eu bod yn gysylltiedig â'i gilydd. Bydd hyn yn cael effaith ar y busnesau bach a digwyddiadau hynny sy'n frith o amgylch yr atyniadau.
Ymateb CNC	Wrth gyflawni ei swyddogaethau, rhaid i CNC ystyried iechyd a llesiant cymdeithasol unigolion a chymunedau yn ogystal â llesiant economaidd unigolion, busnesau a chymunedau. Cais yw hwn am drwydded tynnu dŵr i reoleiddio tynnu dŵr daear presennol. Mae CNC o'r farn na fydd unrhyw newidiadau i'r gweithrediadau presennol nac effeithiau ychwanegol. Mae CNC yn fodlon bod y penderfyniad hwn yn gydnaws â'n diben cyffredinol o geisio rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy a chymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Adran: Y gweithgaredd

Pwnc: Ynghylch y drwydded gweithgaredd a thynnu dŵr arfaethedig	Pryder a fynegwyd 1: Ar gyfer beth fydd y dŵr yn cael ei ddefnyddio? Ymateb CNC: Bydd dŵr yn cael ei dynnu o dwll turio presennol yng Nghyfeirnod Grid Cenedlaethol SO 25669 59311 at ddibenion golchi olwynion ac atal llwch.
Pwnc: Ynghylch y drwydded gweithgaredd a thynnu dŵr arfaethedig	Pryder a fynegwyd 2: Sut bydd y dŵr yn cael ei waredu? Ymateb CNC: Mae hwn yn dyniad dŵr cwbl ddarfodadwy, gyda'r holl ddŵr yn cael ei ddefnyddio yn y prosesau atal llwch a golchi olwynion. Bydd unrhyw ddŵr ffo sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn yn cael ei ollwng o fewn paramedrau derbyniol o dan drwydded gollwng dŵr bresennol, cyfeirnod AW4001902.
Pwnc: Ynghylch y drwydded gweithgaredd a thynnu dŵr arfaethedig	Pryder a fynegwyd 3: Pa mor ddwfn yw'r gwaith tynnu dŵr? Ymateb CNC: Twll turio heb fod yn fwy na 10.93 metr o ddyfnder ac 800 milimetr mewn diamedr gyda phwmp tanddwr.
Pwnc: Ynghylch y drwydded gweithgaredd a thynnu dŵr arfaethedig	Pryder a fynegwyd 4: Dylai'r llwybrau ar gyfer dŵr a dynnir o'r safle gael eu nodi'n gliriach a dylid egluro'r capasiti, y lleoliadau a'r llwybrau i'r cyrchfannau terfynol a nodwyd (Nant Gilwern, Nant Riddings ac ati) a'u dangos ar fapiau gyda'r cais a'r drwydded. Ymateb CNC: Mae lleoliad y gwaith tynnu dŵr wedi'i nodi yn y drwydded drwy amod a chyfeirir ato mewn map cysylltiedig. Nid oes angen dychwelyd dŵr i'r amgylchedd gan fod hwn yn weithgaredd darfodadwy.
Pwnc: Ynghylch y drwydded gweithgaredd a thynnu dŵr arfaethedig	Pryder a fynegwyd 5: Mae'r ymgeisydd yn honni ei fod yn golchi lorïau, ond efallai y bydd dŵr yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu concrit (sy'n llygrydd). Ymateb CNC: Mae CNC o'r farn bod y meintiau tynnu dŵr a'r dibenion y gwneir cais amdanynt yn gwbl gyfiawn ac yn rhesymol.
Pwnc: Ynghylch y drwydded gweithgaredd a thynnu dŵr arfaethedig	Pryder a fynegwyd 6: Dylai llwybrau llif o waith tynnu dŵr i dderbynyddion (e.e. Nant Riddings) gael eu nodi'n glir yn amodau'r cais a'r drwydded. Ymateb CNC: Mae effeithiau tynnu dŵr ar dderbynyddion wedi'u hasesu yn ystod y penderfyniad. Nid oes angen cynnwys llwybr llifoedd o fewn trwyddedau tynnu adnoddau dŵr.
Pwnc: Effeithlonrwydd dŵr	Pryder a fynegwyd: 1. Dylai'r ymgeisydd ailgylchu ei gwota dŵr presennol a mabwysiadu mesurau arbed dŵr eraill. 2. Dylai'r ymgeisydd fod yn gweithredu rhyw fath o system casglu a storio dŵr glaw i helpu gyda faint o ddŵr sydd ei angen.
Ymateb CNC	Mae'r ymgeisydd wedi nodi bod dŵr ar gyfer atal llwch hefyd yn cael ei gymryd o lagwnau ar y safle sy'n derbyn dŵr ffo wyneb er mwyn cynyddu effeithlonrwydd dŵr.

Pwnc: Cynaliadwyedd	Pryder a fynegwyd: <ol style="list-style-type: none"> 1. A fydd y ffynhonnell yn ailgyflenwi neu a fydd yn rhedeg yn sych? 2. Beth yw canlyniadau tebygol y tynnu hwn dros yr 20 mlynedd nesaf? 3. Mae'r adroddiad a ffeiliwyd gyda'r cais yn nodi bod y lefel tynnu dŵr arfaethedig yn sylweddol uwch na'r lefelau cynaliadwy. Mae canlyniadau'r prawf a gynhaliwyd ym mis Awst 2023 yn cadarnhau na all y twll turio tynnu dŵr gynnal gwaith tynnu dŵr ar y lefel arfaethedig o 100m³ y dydd am 365 diwrnod y flwyddyn heb niweidio llif y dŵr yn sylweddol i'r nentydd ac felly'r dalgylch isaf.
Ymateb CNC	Mae CNC yn ystyried bod y pwmpio prawf yn y twll turio a'r asesiad yn ddigon i ddangos bod effaith y twll turio tynnu dŵr yn gynaliadwy. Ymgwymerwyd â chyfradd echdynnu dyddiol o 100m ³ yn ystod y prawf pwmpio. Bydd hyn yn caniatáu i'r twll turio adfer cyn ei ddefnyddio wedyn drannoeth ac mae wedi'i nodi o fewn yr amod meintiau uchaf o ddŵr i'w tynnu (6.1) ar y drwydded tynnu dŵr. Mae terfyn amser ar y drwydded tynnu dŵr er mwyn caniatáu adolygiadau yn y dyfodol.
Pwnc: Dadansoddiad cost a budd	Pryder a fynegwyd: A fydd yn dod ag incwm i'r ddwy ochr?
Ymateb CNC	Bydd yr ymgeisydd yn elwa o argaeledd dŵr ar gyfer ei weithrediad. Bydd arbediad cost o beidio â gorfod defnyddio prif gyflenwad dŵr at y diben hwn. Bydd yr ymgeisydd yn mynd i gostau cynnal y dull tynnu dŵr a mesur y cyfeintiau o ddŵr y mae'n eu tynnu. Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd dalu'r ffi ymgeisio, unrhyw gostau hysbysebu sy'n berthnasol, a thâl parhau blynyddol yn seiliedig ar ei swm trwyddedig. Cyfoeth Naturiol Cymru fydd yn ysgwyddo'r gost o benderfynu ar y cais a gorfodi'r drwydded. Bydd y costau hyn yn cael eu hadennill yn rhannol drwy'r tâl ymgeisio a'r taliadau blynyddol.
Pwnc: Monitro	Pryder a fynegwyd: Mae diffyg monitro credadwy o gyfeintiau tynnu dŵr yn y dyfodol.
Ymateb CNC	Yn unol â'r canllawiau cyfredol, bydd angen cyflwyno cofnodion misol o ddŵr a dynnir i CNC o fewn 28 diwrnod i 31 ym mhob blwyddyn neu o fewn 28 diwrnod i CNC ofyn am y cofnodion yn ysgrifenedig. Bydd hefyd yn ofynnol i ddeiliad y drwydded gadw'r holl gofnodion am o leiaf chwe blynedd a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio yn ystod yr holl oriau rhesymol. Bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am y gofynion mesur a fydd yn cydymffurfio â Llawlyfr Arfer Da Mesur Tynnu Dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru (Adroddiad Technegol Ymchwil a Datblygu W84).
Pwnc: Cytundebau amharu	Pryder a fynegwyd: A fydd CNC yn mynnu bod yr ymgeisydd yn ymrwmo i gytundeb amharu gyda defnyddwyr lleol presennol yr adnoddau dŵr daear?
Ymateb CNC	Mae CNC wedi archwilio'r data a ddarparwyd gan yr ymgeisydd ac yn ystyried y bydd effaith y twll turio tynnu dŵr yn aros o fewn ffiniau'r chwarel a bod amhariad ar nodweddion dŵr lleol yn gyfyngedig ac yn annhebygol. Felly nid oes angen cytundebau amharu.
Pwnc: Gollwng	Pryder a fynegwyd: Sut mae CNC yn bwriadu asesu'r drwydded tynnu dŵr yn briodol pan nad oes cynllun gollwng cadarn eto / nid oes cais gollwng wedi'i wneud eto.
Ymateb CNC	Mae hwn yn dyniad cwbl ddarfodadwy, gyda dŵr yn cael ei ddefnyddio yn y prosesau o atal llwch a golchi olwynion. Bydd unrhyw ddŵr ffo sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn yn cael ei ollwng o fewn paramedrau derbyniol o dan drwydded gollwng dŵr bresennol, cyfeirnod AW4001902.

Adran: Effeithiau ar statws cyrff dŵr o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

<p>Pwnc: Nant Gilwern</p>	<p>Pryder a fynegwyd: Ar hyn o bryd, mae Nant Gilwern yn methu o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac mae wedi'i chategoreiddio yn yr asesiadau diweddaraf fel "gwael" ar gyfer pysgod. Un o'r rhesymau dros y methiant hwnnw yw gwaddod o darddle penodol, sef "gollwng diwydiannol".</p> <p>Mae adroddiad Stantec yn tynnu sylw at Nant Riddings yn benodol fel rhywle sydd "mewn perygl o gael ei effeithio'n sylweddol" gan y cynnig. Mae Nant Riddings yn gynefin silio pwysig i frithyllod a chynefin pwysig i frithyllod ifanc. Mae'n bwydo Nant Hindwell, sy'n darparu cynefin silio i eogiaid a chynefin i eogiaid ifanc, ond mae hefyd yn methu â bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer pysgod (dosbarthiad "cymedrol").</p> <p>Y cynnig yw tynnu hyd at 1,230,41m³ i gyd, drwy gydol y flwyddyn, heb unrhyw gyfyngiadau tymhorol. Er nad yw adroddiad Stantec yn sôn am risg uwch bosibl o effaith ar nentydd lleol yn ystod cyfnodau sych o dynnu dŵr ychwanegol a golchi cerbydau, mae'n cydnabod gostyngiad yn llif y tardellau sy'n bwydo nentydd Gilwern a Riddings a ddaw yn sgil hynny.</p> <p>Mae llifoedd yn Nant Gilwern eisoes dan bwysau sylweddol. Mae'n hysbys bod rhannau o wely'r nant yn sychu mewn cyfnodau o lawiad isel a bydd newid hinsawdd yn gwaethygu hyn. Yn bwysicaf oll, rheswm arall a roddir dros fethiant o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer pysgod yw "llif".</p>
<p>Ymateb CNC</p>	<p>Tynnwyd agwedd ddisbyddu'r cynnig yn ôl yn ystod y broses benderfynu, ac o ganlyniad mae'r cyfraddau tynnu dŵr wedi gostwng yn sylweddol ac felly mae ganddynt radiws effaith llai.</p> <p>Ni ragwelir unrhyw effeithiau ansawdd dŵr ar unrhyw nodweddion dŵr yn yr ardal leol o ganlyniad i weithgareddau tynnu dŵr y twll turio. Bydd unrhyw ddŵr ffo sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn yn cael ei ollwng (drwy system lagŵn gwaddodi bresennol) o fewn paramedrau derbyniol o dan drwydded gollwng dŵr bresennol, cyfeirnod AW4001902 (trwydded gyfunol a gyhoeddwyd ar 7 Gorffennaf 2015). Bydd angen i'r gweithredwr gydymffurfio ag amodau'r drwydded i sicrhau bod y gweithgaredd gollwng yn gweithredu o fewn paramedrau'r drwydded. Gan fod gweithgareddau tynnu'r twll turio wedi bod ar waith yn y gorffennol, ni ragwelir unrhyw newidiadau.</p> <p>Mae CNC yn fodlon na fydd unrhyw ddirywiad yn statws ecolegol y corff/cyrff dŵr a nodwyd o ganlyniad i gydrannau'r gweithgaredd hwn a awdurdodwyd gan y drwydded oherwydd bod y twll turio tynnu dŵr yn cymryd dŵr daear o gorff dŵr clo (ynysig) lleol, wedi'i wahanu oddi wrth y prif gorff dŵr daear. Mae wedi ei leoli o fewn / ar ben bryn o fewn y chwarel, felly uwchben (mewn uchder) y dyfroedd wyneb yn yr ardal leol.</p>

Adran: Effeithiau ar safleoedd a ddynodwyd o dan y Rheoliadau Cynefinoedd a'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy

<p>Pwnc: Safleoedd dynodedig</p>	<p>Pryder a fynegwyd:</p> <ol style="list-style-type: none"> Gallai'r tynnu dŵr effeithio ar un o safleoedd Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed, sef Gwarchodfa Natur Cors Burfa, tua 2,200m i'r gogledd-ddwyrain o'r gwaith tynnu dŵr arfaethedig. <p>Mae'r safle hwn wedi'i warchod fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a gallai newid hydroleg yr ardal effeithio ar allu'r safle i gadw dŵr, ac o ganlyniad bioamrywiaeth y safle. Fel SoDdGA, mae Cors Burfa yn cynnwys brithwaith o gynefinoedd gwlyptir sy'n hanfodol ar gyfer telorion yr helyg (<i>Phylloscopus trochilus</i>), sydd wedi'u rhestru'n oren o dan Adar o Bryder Cadwraethol 5: y Rhestr Goch ar gyfer Adar (2021). Pe bai Cors Burfa yn sychu oherwydd bod lefelau dŵr yn gostwng yn y cyrsiau dŵr lleol o ganlyniad i dynnu dŵr, gallai'r dolydd ffen gwlyb sychu, gan achosi dirywiad mewn fflora prin fel tegeirian brych y rhos (<i>Dactylorhiza maculate</i>) a thegeirian-y-gors deheuol (<i>Dactylorhiza praetermissa</i>). Mae'n rhaid i'r mawn dwfn sy'n ffurfio'r aros yn wlyb, ac mae Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed yn rheoli'r ardaloedd mawndir yn barhaus, trwy'r Rhaglen Genedlaethol Gweithredu ar Fawndiroedd a gydlynir gan CNC. Mae'r gors naturiol yn atafaelu carbon ac yn gweithio i liniaru newid hinsawdd. Pe bai'r rhain yn sychu o ganlyniad i dynnu dŵr, gallai fod effeithiau niweidiol i'r hinsawdd leol.</p> <ol style="list-style-type: none"> Mae Nant Gilwern a Nant Riddings yn llednentydd afon Llugwy. Mae afon Llugwy ei hun wedi'i dynodi'n SoDdGA ac mae'n un o lednentydd afon Gwy – sef Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) ddynodedig a thua 28km o'r safle tynnu dŵr arfaethedig. Gallai unrhyw ollyngiad nad yw'n cael ei ddal gan y pyllau gwanhau gael effeithiau niweidiol ar yr afonydd a'r cyrsiau dŵr lleol o amgylch y safleoedd tynnu dŵr arfaethedig. Ymhlith y rhywogaethau a allai gael eu heffeithio mae'r brithyll (<i>Salmo trutta</i>), sy'n rhywogaeth â blaenoriaeth sy'n gofyn am amrywiaeth o gynefinoedd dŵr croyw trwy gydol ei chylch bywyd. Gallai'r gwaith tynnu dŵr arfaethedig gynyddu'r digwyddiadau sychu a lleihau'r cynefin posibl ar gyfer y brithyll yn ardal Sir Faesyfed. <p>Yn yr un modd, gallai'r tynnu dŵr effeithio ar Nant Summergil, na chrybwyllir yn y cynnig, a nentydd tymhorol eraill. Mae'r nentydd hyn yn nalgylch afon Gwy a, thrwy ddigwyddiadau sychu tymhorol yn yr haf, maent yn darparu gwasanaethau ecosystemau ac yn cefnogi biota amrywiol sy'n cynnwys arbenigwyr prin ac endemig. Gallai'r gwerth ecolegol hwn gael ei golli os byddant yn sychu'n barhaol o ganlyniad i dynnu dŵr.</p>
<p>Ymateb CNC</p>	<p>Mae CNC wedi archwilio'r data a ddarparwyd gan yr ymgeisydd ac yn ystyried y bydd effaith y twll turio tynnu dŵr yn aros o fewn ffiniau'r chwarel. Felly, oherwydd natur a lleoliad y cynnig, nid oes llwybr effaith i unrhyw safleoedd a ddynodwyd o dan y Rheoliadau Cynefinoedd na'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.</p> <p>Cytunodd Corff Cadwraeth Natur Priodol CNC â'r casgliadau hyn ar 5 Tachwedd 2024.</p>

Adran: Ymgynghoriad statudol

<p>Pwnc: Ymgynghoriad statudol</p>	<p>Pryder a fynegwyd: A yw'r ymgymerwr dŵr statudol wedi cael gwybod am y cais ac a oedd ganddo unrhyw bryderon?</p>
<p>Ymateb CNC</p>	<p>Ymgynghorodd CNC â Dŵr Cymru, yr ymgymerwr dŵr statudol, ar 4 Ionawr 2024. Mynegodd Dŵr Cymru bryderon ynghylch yr effeithiau posibl ar drwydded tynnu dŵr ar gyfer cyflenwad cyhoeddus, oherwydd gallai elfen ddisbyddu'r cais effeithio ar lifoedd yn Nant Gilwern. Gan fod agwedd ddisbyddu'r cynnig wedi'i thynnu'n ôl yn ystod y broses benderfynu ac na ragwelir unrhyw effeithiau ar lif dŵr wyneb o waith tynnu dŵr y twll turio, mae'r pryder hwn wedi'i fodloni. Fodd bynnag, mae'r ymgeisydd wedi cael gwybod am y pryder a bydd angen mynd i'r afael ag ef os yw'n dymuno cyflwyno cais am ddisbyddu yn y dyfodol. Mae Dŵr Cymru wedi cael gwybod bod elfen ddisbyddu'r cais wedi'i thynnu'n ôl.</p>

Adran: Digollediad

Pwnc: Amhariad	Pryder a fynegwyd: <ol style="list-style-type: none"> Os yw'r tynnu dŵr yn effeithio ar argaeledd dŵr mewn twll turio preifat, pa hawl ddigolledu sydd yn erbyn yr ymgeisydd? Mae yna lawer o fusnesau ffermio lleol a fyddai o dan yr un amgylchiadau. Mae'n gredadwy iawn y gallai tynnu'r cyfaint dŵr arfaethedig effeithio ar hyfywedd llawer o fusnesau sy'n bodoli eisoes. Yn wir, os oes unrhyw effeithiau ar lefelau dŵr daear neu effeithiau eraill nas rhagwelwyd, mae'n ymddangos yn ofyniad sylfaenol rhesymol i unrhyw fusnesau yn yr ardal yr effeithir arnynt yn negyddol gael digollediad priodol am unrhyw golledion.
Ymateb CNC	Oherwydd y pellter rhwng y twll turio presennol a thynwyr dŵr preifat, daeareg leol yr ardal (corff dŵr daear twll turio wedi'i wahanu oddi wrth y prif gorff dŵr daear) a natur y cynnig (tyniad hanesyddol), mae CNC o'r farn bod amhariad ar ddefnyddwyr dŵr lleol (tyllau turio, tarddellau, ffrydiau, nentydd, afonydd ac ati) yn gyfyngedig ac yn annhebygol. Gan fod agwedd ddisbyddu'r cynnig wedi'i thynnu'n ôl yn ystod y broses benderfynu, mae'r cyfraddau tynnu dŵr wedi gostwng yn sylweddol ac felly mae ganddynt radiws effaith llai.
Pwnc: Llifogydd	Pryder a fynegwyd: Pwy fydd yn digolledu preswylwyr am unrhyw ddifrod ac yn cymryd cyfrifoldeb am weithredoedd yr ymgeisydd?
Ymateb CNC	Ni ragwelir unrhyw effeithiau ar lifogydd lleol. Cyfeiriwch at yr adran 'Effeithiau ar lifogydd' uchod.

Adran: Arall

Pwnc: Arall	Pryder a fynegwyd 1: Mae'r chwarel yn gwmni mawr gydag ychydig iawn o bryder am eiddo sy'n gorwedd ar hyd y cwrs dŵr. Ymateb CNC: Mae CNC wedi penderfynu ar y cais yn unol â'n dyletswyddau a'n cyfrifoldebau.
Pwnc: Arall	Pryder a fynegwyd 2: Mae tarddellau lleol wedi sychu ac mae trigolion yn ansicr pam. Ymateb CNC: Mae CNC wedi asesu'r cynnig fel y'i gwnaed, gan gynnwys effeithiau posibl ar nodweddion a defnyddwyr dŵr lleol, ac yn ystyried y bydd effaith y twll turio tynnu dŵr yn aros o fewn ffiniau'r chwarel a bod amhariad ar nodweddion/defnyddwyr dŵr lleol yn gyfyngedig ac yn annhebygol o ganlyniad i'r gwaith tynnu dŵr hwn.
Pwnc: Arall	Pryder a fynegwyd 3: Mae caniatáu i gwmni mwyngloddio masnachol ysbeilio adnoddau naturiol y dyffryn unigryw a hardd hwn, gyda'r holl effeithiau cydredol ar ei ecosystem, yn annerbyniol. Ymateb CNC: Wrth gyflawni ei swyddogaethau, rhaid i CNC ystyried iechyd a llesiant cymdeithasol unigolion a chymunedau yn ogystal â llesiant economaidd unigolion, busnesau a chymunedau. Nid yw'r ddyletswydd hon yn cynnwys pŵer i'w gwneud yn ofynnol i weithredwyr ddarparu neu gynnwys buddion cymunedol penodol fel rhan o'u cynllun tynnu dŵr.

Costau/manteision

Opsiynau a ystyriwyd	Opsiwn 1: Cyflwyno'r drwydded a geisiwyd fel y'i gwnaed Opsiwn 2: Rhoi amodau ar y drwydded Opsiwn 3: Gwrthod y cais
Opsiwn a ffefrir	Opsiwn 2
Rheswm dros ddewis yr opsiwn a ffefrir	Nid yw'r costau a'r risgiau i'r amgylchedd sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn yn golygu bod gwrthod yn gam gweithredu rhesymol na phriodol. Ystyrir bod amodau, megis uchafswm cyfradd tynnu dŵr, yn angenrheidiol ac yn ddigonol. Mae'r holl amodau a osodir ar y drwydded yn unol â deddfwriaeth a pholisi cyfredol.

Dadansoddiad costau/buddion

Bydd yr ymgeisydd yn elwa o argaeledd dŵr ar gyfer ei weithrediad. Bydd arbediad cost o beidio â gorfod defnyddio prif gyflenwad dŵr at y diben hwn. Bydd yr ymgeisydd yn mynd i gostau cynnal y dull tynnu dŵr a mesur y cyfeintiau o ddŵr y mae'n eu tynnu. Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd dalu'r ffi ymgeisio, y costau hysbysebu sy'n berthnasol, a thâl parhau blynyddol yn seiliedig ar ei swm trwyddedig. Cyfoeth Naturiol Cymru fydd yn ysgwyddo'r gost o benderfynu ar y cais a gorfodi'r drwydded. Bydd y costau hyn yn cael eu hadennill yn rhannol drwy'r tâl ymgeisio a'r taliadau blynyddol.

Cydymffurfedd

Mae'r drwydded tynnu dŵr yn cynnwys amodau i osod y symiau tynnu mwyaf, lleoliad a chyfnodau tynnu dŵr, a'r dull o fesur a chofnodi i gynorthwyo cydymffurfedd.

Monitro

Yn unol â'r canllawiau cyfredol, bydd angen cyflwyno cofnodion misol o ddŵr a dynnir i CNC o fewn 28 diwrnod i 31 ym mhob blwyddyn neu o fewn 28 diwrnod i CNC ofyn am y cofnodion yn ysgrifenedig. Bydd hefyd yn ofynnol i ddeiliad y drwydded gadw'r holl gofnodion am o leiaf chwe blynedd a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio yn ystod yr holl oriau rhesymol.

Bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am y gofynion mesur a fydd yn cydymffurfio â Llawlyfr Arfer Da Mesur Tynnu Dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru (Adroddiad Technegol Ymchwil a Datblygu W84).

Bioamrywiaeth a datblygu cynaliadwy

Mae egwyddorion datblygu cynaliadwy a bioamrywiaeth wedi'u hymgorffori yn yr amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded.

Llesiant cymdeithasol ac economaidd cymunedau gwledig

Mae CNC yn fodlon na chanfyddir unrhyw effeithiau andwyol ar lesiant cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol yn yr ardal wledig o ganlyniad i'r cynnig hwn. Mae effeithiau sŵn, llygredd golau, diraddio arwynebau ffyrdd ac effaith sŵn ffrwydro y tu allan i gylch gwaith Deddf Adnoddau Dŵr 1991, a gellir eu hystyried dan ganiatadau eraill, e.e. caniatâd cynllunio.

Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Mae terfyn amser ar y drwydded tynnu dŵr a ddyroddir er mwyn caniatáu ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol.

Mae CNC yn fodlon bod y penderfyniad hwn yn gydnaws â'n diben cyffredinol o geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru a chymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Casgliad ac argymhelliad

Rhodddwyd ystyriaeth lawn a dyledus i unrhyw sylwadau a wnaed, a rhodddwyd y sylw dyledus i hawliau a ddiogelir a buddiannau cyfreithlon eraill.

Mae egwyddorion datblygu cynaliadwy wedi'u hymgorffori yn yr amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded.

Ystyrir bod yr amodau a ymgorfforwyd ar y drwydded tynnu dŵr yn angenrheidiol ac yn rhesymol ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ac a gyflwynwyd. Ystyrir hefyd bod yr amodau yn gyson â safonau gorfodi addas gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Argymhellaf felly gymeradwyo'r cais (fel y'i diwygiwyd) a dyroddi rhif trwydded WA/055/0008/0006 gyda'r amodau fel y'u drafftwyd.

Cysylltwch â'r tîm trwyddedu sy'n gyfrifol am y penderfyniad hwn

Cyfeiriad e-bost: permittingconsultations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Neu ysgrifennwch at:
Arweinydd y Tîm Adnoddau Dŵr
Y Gwasanaeth Trwyddedu
Cyfoeth Naturiol Cymru
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru

Rhodfa'r Brenin Edward VII
Caerdydd
CF10 3NQ